










Ymgorffori Cynwysoldeb yn nata'r DU: diweddariad 2023 ar weithredu argymhellion Data Cynhwysol

Tasglu data cynhwysol





Tabl Cynnwys

Sylwadau'r Ystadegydd Gwladol	1
Cyflwyniad	4
Egwyddorion Data Cynhwysol	6
Cynnydd	14
Ymddiriedolaeth — Egwyddor Data Cynhwysol 1	14
Gweithio Systemig - Egwyddor Data Cynhwysol 2	19
Cwmpas - Egwyddor Data Cynhwysol 3	24
Dadgyfuno — Egwyddor Data Cynhwysol 4	31
Cysyniadau — Egwyddor Data Cynhwysol 5	37
Dulliau — Egwyddor Data Cynhwysol 6	42
Cysoni - Egwyddor Data Cynhwysol 7	47
Hygyrchedd — Egwyddor Data Cynhwysol 8	50
Ymrwymadau yn y dyfodol	56
Ymrwymadau'r dyfodol ar ymddiriedaeth — Egwyddor Data Cynhwysol 1	58
Ymrwymadau'r dyfodol ar weithio systemig — Egwyddor Data Cynhwysol 2	60
Ymrwymadau'r dyfodol ar gwmpas— Egwyddor Data Cynhwysol 3	62
Ymrwymadau'r dyfodol ar ddadgyfuno — Egwyddor Data Cynhwysol 4	66
Ymrwymadau'r dyfodol ar gysyniadau — Egwyddor Data Cynhwysol 5	70
Ymrwymadau'r dyfodol ar dulliau — Egwyddor Data Cynhwysol 6	72
Ymrwymadau'r dyfodol ar gysoni — Data Cynhwysol Egwyddor 7	74
Ymrwymadau'r dyfodol ar hygyrchedd — Egwyddor Data Cynhwysol 8	76

Sylwadau'r Ystadegydd Gwladol

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol cyntaf sy'n amlinellu'r cynnydd rydym yn ei wneud i gynyddu cynwysoldeb data a thystiolaeth ledled system ystadegol y DU. Fe wnaeth fy nghomisiynu o'r Tasglu Data Cynhwysol (TDC) arwain at ei adroddiad eang a'i argymhellion ym mis Medi 2021, ac yna cyhoeddwyd **Cynllun Gweithredu uchelgeisiol y TDC** ym mis Ionawr 2022. Roedd cynnydd eisoes yn cael ei wneud o ran gwella cynwysoldeb data, ond mae argymhellion y Tasglu wedi ein galluogi i ganolbwyntio ein hymdrechion yn fwy cydweithredol a strategol ar draws system ystadegol y DU. Mae'r adolygiad hwn yn rhannu'r cynnydd a wnaed rhwng 2022 a 2023, ac yn amlinellu'r gweithgareddau allweddol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2023 i 2024.

Mae cynnydd da wedi'i wneud, gan ddangos yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud ar draws system ystadegol y DU i sicrhau bod pawb yn cyfrif ac yn cael eu cyfrif. Mae gennym gyfranwyr gweithredol i'r Cynllun o bob rhan o adrannau Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig a sefydliadau y tu allan i'r llywodraeth. Yn wir, mae nifer y cyfranwyr wedi cynyddu ers y llynedd, arwydd ein bod yn adeiladu momentwm tuag at fwy o gynhwysiant yn ehangach.

Mae cydweithwyr yn y Gweinyddiaethau Datganoledig wedi sefydlu strategaethau newydd, gan gynnwys Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru a Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb Llywodraeth yr Alban 2023 i 2025. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd i ddatblygu data mwy cynhwysol.

Mae gan adrannau fel yr Adran Addysg, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Cyllid a Thollau EF, y Swyddfa Gartref a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn ogystal â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) raglenni gwaith ar y gweill i wella cynwysoldeb data mewn casgliadau data arolwg a gweinyddol ar grwpiau o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn ystadegau'r DU. Bydd y rhain yn llenwi bylchau data ar blant a phobl ifanc, ffoaduriaid a mudwyr, pobl sy'n profi digartrefedd, ac yn galluogi dadansoddiad cyfoethocach, gan gynnwys dadansoddiad croestoriadol rhwng grwpiau poblogaeth. Yn ystod 2022, lansiodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol raglen arloesol o ymchwil ansoddol yn rhoi cipolwg ar brofiadau nifer o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyhoeddi canfyddiadau ar brofiadau pobl anabl o weithgareddau, nwyddau a gwasanaethau'r sector preifat, profiadau addysgol pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau, a

phrofiadau bywyd Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r gwaith hwn i gyd yn helpu i lywio'r gwaith o lunio polisiau ac mae'n cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol gan y grwpiau hyn yn ogystal â sefydliadau sy'n gweithio gyda nhw.

Er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau rhag cymryd rhan mewn arolygon, mae'r SYG [Swyddfa Ystadegau Gwladol] wedi cyflwyno cynllun arolwg addasol ar gyfer yr Arolwg o'r Gweithlu wedi'i Drawsnewid, fel rhagflaenydd i'w gyflwyno ar draws cyfres o arolygon cymdeithasol SYG. Ar yr un pryd, mae argymhelliad yr TDC i ddatblygu 'contract cymdeithasol' ar gyfer cyfranogwyr ymchwil i annog mwy o ymddiriedaeth a dealltwriaeth yn y defnydd o ddata, wedi datblygu i fod yn rhaglen waith fwy nag a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer 2022, i gydnabod y gallai fod angen mathau penodol o wybodaeth ar wahanol grwpiau poblogaeth i ennyn ymddiriedaeth. Rydym yn datblygu'r gwaith hwn gyda phartneriaid allanol fel rhan o strategaethau ymgysylltu ehangach.

Mae nifer o gynhyrchwyr ystadegol wedi gwella eu cynnig data a'i hygyrchedd i ddefnyddwyr, gan gynnwys lansio offer a dangosfyrddau newydd gan SYG, Llywodraeth Cymru, yr Adran Addysg, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Swyddfa dros Gwella Iechyd a Gwahaniaethau, y Swyddfa Safonau mewn Addysg ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. Rhyddhaodd y SYG offeryn "Creu Set Ddata Bwrpasol" Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021 ym mis Ebrill 2023.

O fewn y SYG rydym yn arwain nifer o weithgareddau strategol gyda'r nod o gryfhau ansawdd, cwmpas a hygyrchedd data.

Ym mis Chwefror 2022, fe wnaethom gyhoeddi cynllun ar gyfer adolygu'r safonau a'r canllawiau wedi'u cysoni ar gyfer casglu data ar draws y llywodraeth ar nodweddion personol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu normau cymdeithasol cyfredol, yn ogystal ag anghenion ymatebwyr a defnyddwyr. Yn ystod 2022 i 2023, fe wnaethom ddiweddarau nifer o safonau newydd gan gynnwys ar gyfer ethnigrwydd, dosbarthiad economaidd-gymdeithasol, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd.

Mae'r SYG hefyd wedi parhau i ddatblygu'r Gwasanaeth Data Integredig (IDS) sydd bellach yn ei gyfnod beta cyhoeddus llawn. Bydd hyn yn darparu llyfrgell dulliau ystadegol ar gyfer defnyddwyr achrededig, yn ogystal â gwasanaethau cysylltu data a pharu ar draws y llywodraeth, y disgwylir iddynt fod ar gael yn ddiweddarach yn 2023. Ochr yn ochr â hyn, mae dulliau newydd a gwell ar gyfer cysylltu setiau data ar draws sefydliadau yn cael eu datblygu gan SYG ac eraill fel rhan o'r **Adolygiad Data Cydgysylltiedig yn y Llywodraeth**, rhai i'w defnyddio yng nghyd-destun yr IDS. Hefyd lansiodd y SYG ei chynnig ystadegau is-genedlaethol newydd a gwasanaeth dadansoddi lleol yn 2022, gyda'r uchelgais o gwmpasu pedair gwlad y DU.

Mae'r SYG hefyd wrthi'n cynnal rhaglen drawsnewid uchelgeisiol a radical, gan geisio darparu ystadegau poblogaeth, mudo a chymdeithasol mwy amserol. Rwy'n hynod falch o'r ystod o fewnwelediadau a ddarparwyd o Gyfrifiad Cymru a Lloegr 2021. Fodd bynnag, mae'r bwlch deng mlynedd rhwng Cyfrifiadau'n ein gadael mewn sefyllfa lle rydym yn gorfod gwneud penderfyniadau pwysig yn seiliedig ar amcangyfrifon anghyflawn ac a allai fod yn anghywir. Credwn y gallwn wneud gwell defnydd o ddata sydd eisoes ar gael at ddibenion gweinyddol i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Rydym ni hefyd yn gwybod nad yw'r data hyn yn berffaith, a byddwn yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus cyn bo hir i helpu i lywio sut rydym yn symud ymlaen i ddiwallu anghenion ein defnyddwyr.

Cyflawnwyd nifer o fentrau i wella mynediad at ddata gweinyddol yn 2022 drwy ryddhau setiau data newydd neu estynedig gan gynnwys gan y Swyddfa Gartref, y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau, yr Adran Addysg a'r Swyddfa Myfyrwyr. Bydd data gweinyddol yn parhau i fod yn ffactor pwysig wrth ddatblygu cynwysoldeb ystadegau'r DU.

Hoffwn fynegi fy niolch i'r Fonesig Julia Cleverdon DCVO CBE, a ddaeth yn Gadeirydd Pwyllgor Cynghori Data Cynhwysol fy Ystadegydd Gwladol newydd yn 2022, gyda chynrychiolwyr o bob un o'r pedair gwlad. Mae'r Fonesig Julia ac Aelodau eraill y Pwyllgor yn darparu cyngor a her dryloyw, arbenigol ac annibynnol ar ein blaenoriaethau a'n cynnydd ar draws system ystadegol y DU. Rwy'n hynod werthfawrogol o'r amser a'r arbenigedd y mae'r grŵp amrywiol hwn o uwch academyddion, arbenigwyr data cydraddoldeb ac arweinwyr cymdeithas sifil yn eu darparu. Mae hwn yn gam pwysig i sicrhau ein bod yn cael yr effaith a ddymunwn.

Mae cymaint o gynnydd wedi'i wneud ar draws system ystadegol y DU. Fodd bynnag, mae'r adolygiad hwn hefyd yn amlygu rhai o'r heriau a wynebir a gwyddom y bydd mwy o'n blaenau. Mae pob adran a sefydliad yn gorfod blaenoriaethu gwaith yn yr hinsawdd cyllidol presennol. Mae rhai o'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud wrth i ni gyhoeddi'r diweddariad hwn, ac am y rheswm hwn nid yw'r rhestr o fentrau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn gynhwysfawr wrth i adrannau gwblhau eu cynlluniau.

Rwy'n annog pawb i ddarllen adroddiad argymhellion gwreiddiol y TDC ochr yn ochr â'r adroddiad cynnydd hwn. Rwy'n eich herio i ystyried a oes mwy y gallwch ei wneud i yfrannu i'r genhadaeth bwysig hon. Ni allwn ond gwella pa mor gynrychioliadol yw data a thystiolaeth y DU os ydym i gyd yn cydweithio.



Yr Athro Syr Ian Diamond
Yr Ystadegydd Gwladol
Mai 2023



Cyflwyniad


Cyhoeddodd y **Tasglu Data Cynhwysol** (TDC) ei adroddiad a'i argymhellion ym mis Medi 2021. Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddwyd **Cynllun Gweithredu** pellgyrhaeddol ar gyfer y cyfnod 2022 i 2023 hyd at ddiwedd 2024 i 2025, gan gynnwys manylion y gwaith presennol a'r gwaith arfaethedig ar draws y DU a fwriedir i wneud data a thystiolaeth yn fwy cynhwysol.

Trefnodd y TDC eu hargymhellion o dan wyth Egwyddor Data Cynhwysol trosfwaol a oedd gyda'i gilydd yn darparu glasbrint uchelgeisiol ar gyfer creu newid sylweddol o ran cynwysoldeb data a thystiolaeth y DU.

Mae'r adolygiad hwn yn bwrw golwg lefel uchel ar y cynnydd a wnaed yn 2022 i 2023 ar draws yr ymrwymïadau a gyhoeddwyd yn y Cynllun Gweithredu, yn nodi cyflawniadau allweddol, lle mae angen mwy o gynnydd, a gweithgareddau allweddol ar gyfer 2023 i 2024.

Mae gan weithredu argymhellion y Tasglu Data Cynhwysol ganlyniadau pellgyrhaeddol ar gyfer casglu data, ystadegau a dadansoddi ar draws system ystadegol y DU, gyda'r nod o ymgorffori cynwysoldeb fel arfer safonol ar draws tirwedd ystadegol y DU mewn ffordd gynaliadwy.






Crynodeb gweithredol

Roedd y Cynllun Gweithredu'n crynhoi gwybodaeth am ystod eang o 205 o fentrau, wedi'u categorio o dan wyth Egwyddor Data Cynhwysol, ar draws y llywodraeth, cymdeithas sifil a'r byd academiaidd y disgwylir iddynt gyfrannu at fwy o gynwysoldeb data a thystiolaeth y DU.

O'r 205 o fentrau mae bron i 90% bellach ar y gweill neu eisoes wedi'u cwblhau, tra bod oddeutu 10% wedi'u gohirio, wedi'u dirwyn i ben neu nid oedd gwybodaeth am eu cynnydd ar gael ar adeg cyhoeddi. Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu bod cynnydd cryf wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, er ei bod yr un mor bwysig nodi lle mae cynnydd wedi bod yn fwy heriol a pham, er mwyn i ni allu nodi sut y gellir goresgyn rhwystrau i lwyddiant.



Ffigur 1: Statws gweithgareddau Cynllun Gweithredu'r Tasglu Data Cynhwysol (TDC) (coch, ambr, gwyrdd)

Ffynhonnell: Gweithgareddau'r Tasglu Data Cynhwysol

Egwyddorion Data Cynhwysol

Yr wyth Egwyddor Data Cynhwysol a amlinellwyd gan y Tasglu Data Cynhwysol (TDC) yw:

Egwyddor Data Cynhwysol 1 – Ymddiriedaeth

Creu amgylchedd o ymddiriedaeth a dibynadwyedd sydd yn caniatáu ac yn annog pawb i gyfrif a chael eu cyfrif yn nata a thystiolaeth y DU.

Egwyddor Data Cynhwysol 2 – Gweithio Systemig

Cymryd ymagwedd system gyfan, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill i wella cynwysoldeb data a thystiolaeth y DU.

Egwyddor Data Cynhwysol 3 – Cwmpas

Sicrhau bod pob grŵp yn cael ei gofnodi'n gadarn ar draws meysydd allweddol o fywyd yn nata'r DU ac adolygu arferion yn rheolaidd.

Egwyddor Data Cynhwysol 4 – Dadgyfuno

Gwella seilwaith data'r DU i alluogi dadgyfuno cadarn a dibynadwy a dadansoddiad croestoriadol ar draws yr ystod lawn o grwpiau a phoblogaethau perthnasol, ac ar wahanol lefelau o ddaearyddiaeth.

Egwyddor Data Cynhwysol 5 – Cysyniadau

Sicrhau priodoldeb ac eglurder ynghylch y cysyniadau sy'n cael eu mesur ar draws yr holl ddata a gesglir.

Egwyddor Data Cynhwysol 6 – Dulliau

Ehangu'r ystod o ddulliau a ddefnyddir yn rheolaidd a chreu dulliau newydd o ddeall profiadau ar draws poblogaeth y DU.

Egwyddor Data Cynhwysol 7 – Cysoni

Dylid adolygu safonau wedi'u cysoni ar gyfer grwpiau a phoblogaethau perthnasol o leiaf bob pum mlynedd a'u diweddarau a'u hehangu lle bo angen, yn unol â normau cymdeithasol newidiol ac anghenion ymatebwyr a defnyddwyr.

Egwyddor Data Cynhwysol 8 – Hygyrchedd

Sicrhau bod data a thystiolaeth y DU yr un mor hygyrch i bawb, tra'n diogelu hunaniaeth a chyfrinachedd y rhai sy'n rhannu eu data.

Er y gall pob un o'r 205 o fentrau a ddisgrifir yn y Cynllun Gweithredu llinell sylfaen wneud cyfraniad cyfunol pwysig at wella cynwysoldeb ar draws system ystadegol y DU, mae mentrau penodol, sy'n drawsbynciol yn aml, sydd â'r potensial i gyfrannu'n fwy sylweddol a chynaliadwy at y newid sylweddol mewn cynwysoldeb a ragwelir gan y Tasglu Data Cynhwysol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cysoni** safonau a chanllawiau ar gyfer casglu data o ran priodoldeb ac eglurder y cysyniadau sy'n cael eu mesur, gan ganolbwyntio ar nodweddion personol a gwarchoddedig
- **Mabwysiadu** strategaethau a dulliau gweithredu i wella cwmpas arolygon a ffynonellau data gweinyddol, a gwneud mwy o ddefnydd o'r olaf, i gyrraedd grwpiau o'r boblogaeth sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd
- **Trawsnewid** y system ar gyfer cynhyrchu ystadegau am y boblogaeth, gyda'r argymhelliad i'w wneud gan yr Ystadegydd Gwladol ar ddyfodol Cyfrifiad Cymru a Lloegr yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus helaeth yn 2023
- **Datblygu'r** Gwasanaeth Data Integredig a fydd yn galluogi gwell dadansoddiad croestoriadol trwy gysylltu data ar draws y Llywodraeth

Mae'r Cynllun yn cwmpasu'r cyfnod 2022 i 2023 hyd at 2024 i 2025. Ym mis Mawrth 2025 byddwn yn gwerthuso'r effaith sydd wedi'i gwneud a lle mae angen gwneud rhagor o waith i barhau i wella cynwysoldeb data a thystiolaeth y DU.



Egwyddor Data Cynhwysol 1 — Ymddiriedaeth

Roedd 24 o fentrau yn y cynllun gweithredu sylfaenol yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd sy'n berthnasol i greu amgylchedd o ymddiriedaeth a dibynadwyedd. O'r rhain, roedd y rhan fwyaf (20) naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill ac ar amser ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2023.

Mae nifer o fentrau newydd wedi'u lansio i wella ymgysylltiad â gwahanol grwpiau poblogaeth gyda'r nod o wella ymddiriedaeth a dibynadwyedd mewn ystadegau, er mwyn annog darparu data. Er enghraifft, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi creu Cynulliad SYG i gefnogi deialog reolaidd ar gyflwyno data cynhwysol ag elusennau a chyrrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau o'r boblogaeth sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae nifer o weithgareddau i leihau rhwystrau ymarferol i gyfranogi mewn arolygon wedi'u cwblhau neu ar y gweill gan y SYG megis datblygu deunyddiau i ymatebwyr SYG, gan gynnwys mewn perthynas â hygyrchedd, yn ogystal â thrwy adrannau eraill, gan gynnwys yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae gwaith y SYG ar ddatblygu 'contract cymdeithasol' gyda chyfranogwyr ymchwil wedi datblygu i fod yn rhaglen waith fwy nag a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer 2022, i gydnabod y gallai fod angen mathau penodol o wybodaeth ar wahanol grwpiau poblogaeth i ennyn ymddiriedaeth. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gyda phartneriaid allanol ac mae'n parhau rhwng 2023 a 2024.

Egwyddor Data Cynhwysol 2 — Gweithio systemig

Roedd 33 o fentrau yn y cynllun gweithredu sylfaenol yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd sy'n berthnasol i weithio mewn partneriaeth ar draws system ystadegol y DU, gan sicrhau dull system gyfan. O'r rhain, roedd y rhan fwyaf (31) naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill ac ar amser ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2023..

Mae Pwyllgor Cynghori ar Ddata Cynhwysol newydd ac annibynnol yr Ystadegydd Gwladol eisoes wedi cyfarfod bedair gwaith i ddarparu cyngor tryloyw a monitro cynnydd. Mae mentrau wedi'u gwneud mewn sawl adran gan gynnwys Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Addysg i wreiddio cynwysoldeb yn eu sefydliadau, gyda mwy o waith i'w wneud gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) i barhau i annog

gwreiddio cynwysoldeb ar draws system ystadegol y DU. Bu llawer o weithgarwch ar rannu gwybodaeth, arferion da ac arloesi ledled y DU ac yn rhyngwladol megis y safonau ar gyfer data ethnigrwydd a gyhoeddwyd gan Ganolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet. Bydd yn allweddol i hyn barhau i sicrhau bod gwelliannau i ddata a thystiolaeth yn gynaliadwy.

Mae cydweithredu ar systemau ystadegol ledled y DU wedi bodoli ers tro byd, ond crëwyd ffocws ar nodau a rennir i wella cynwysoldeb data. Er enghraifft, cytunwyd ar yr adolygiad o safonau a chanllawiau wedi'u cysoni rhwng y SYG, Canolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet a'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig, ac mae Tasglu wedi'i greu i lunio 'contract cymdeithasol' ar gyfer cyfranogwyr ymchwil sydd ag aelodaeth o'r gweinyddiaethau datganoledig yn ogystal ag arbenigwyr allanol. Bellach mae gan y Rhyngweinyddiaeth ffrwd waith ar Gynwysoldeb fel rhan o'i Rhaglen Waith. Lansiodd Is-bwyllgor Gwasanaeth Ystadegol newydd y Llywodraeth (GSS) ar Ddata Cynhwysol ym mis Mai 2023 a fydd yn cryfhau'r ffocws hwn ymhellach.

Er mwyn galluogi dysgu ehangach, mae adrannau gan gynnwys Swyddfa'r Cabinet, yr Adran Addysg a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi datblygu a chyhoeddi canllawiau rhannu dysgu ar sut i asesu a gwella cynhwysiant ac ansawdd data. Cynhaliodd Llywodraeth yr Alban hefyd gyfres o weithdai i arddangos arfer da a rhannu dysgu.

Egwyddor Data Cynhwysol 3 — Cwmpas

Roedd 33 o'r 41 o fentrau yn y cynllun gweithredu sylfaenol a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl grwpiau'n cael eu cofnodi'n gadarn naill ai wedi'u cwblhau, neu ar y gweill ac yn unol â'r amserlen, ddiwedd mis Mawrth 2023.

Mae rhywfaint o gynnydd da wedi'i wneud yn yr hyn sy'n faes allweddol, sy'n cynnwys dod o hyd i atebion i heriau hirsefydlog ar fylchau mewn data ar gyfer rhai grwpiau poblogaeth. Disgwylir y bydd mwy yn cael ei gyflawni yn y maes hwn wrth i waith dichonoldeb a gwaith strategol arall fynd rhagddo, gan gynnwys astudiaethau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar ffyrdd o wella cwmpas arolygon, gwella'r broses o gasglu data ar nodweddion personol mewn data gweinyddol er enghraifft drwy'r Swyddfa Gartref, a datblygu ffyrdd o gynyddu'r defnydd o ddata gweinyddol yn gyffredinol.

Mae'r SYG wedi cyflwyno Cynllun Arolwg Addasol ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu Wedi'i Drawsnewid fel strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thangynrychiolaeth a bydd yn dadansoddi'r canlyniadau hyn yn barhaus i bennu'r camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â thangynrychiolaeth. Mae cynnydd y SYG yn parhau ar ddatblygu argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol ar ddyfodol y cyfrifiad a chynllun cysylltiedig ystadegau

poblogaeth yn y dyfodol, sydd â chynwysoldeb yn ganolog iddo. Bydd yr argymhelliad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn haf 2023.

Egwyddor Data Cynhwysol 4 — Dadgyfuno

Roedd 25 o fentrau yn y cynllun gweithredu sylfaenol yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd sy'n berthnasol i alluogi dadgyfuno a dadansoddi croestoriadol. Roedd pob un naill ai wedi'i gwblhau neu ar y gweill ac ar amser ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2023.

Fe fu cynnydd sylweddol ar draws System Ystadegol y Llywodraeth (GSS) i ddatblygu data manylach, gronynnog i alluogi mwy o ddadansoddi croestoriadol. Mae lefel y manylder a gasglwyd wedi cynyddu, er enghraifft casgliad gorfodol yr Adran Addysg o Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal ar lefel y plentyn, a meintiau samplau cynyddol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer yr Arolwg Cyfranogiad a'r Arolwg Adnoddau Teuluol, yn y drefn honno.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi cyhoeddi ei Chynllun Gwaith Ystadegau Is-genedlaethol mewn ymateb i Strategaeth Ddata Is-genedlaethol GSS ac wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth sefydlu SYG Lleol, gwasanaeth dadansoddi data lleol gyda'r uchelgais o gwmpasu pedair gwlad y DU.

Bydd ffocws parhaus ar alluogi (trwy rannu data) a chynnal mwy o ddadansoddi croestoriadol yn bwysig rhwng 2023 a 2024. Bydd datblygiad parhaus y Gwasanaeth Data Integredig (IDS) yn allweddol i hyn. Bydd yr IDS, sydd ar hyn o bryd mewn cyfnod beta cyhoeddus, yn darparu llyfrgell dulliau ystadegol ar gyfer defnyddwyr achrededig yn ogystal â gwasanaethau paru a chysylltu data, y disgwylir iddynt fod ar gael yn ddiweddarach yn 2023. Mae'r SYG a Swyddfa'r Cabinet wedi cynhyrchu prototeip ar y cyd o Asedau Data Cydraddoldeb sy'n cysylltu data'r cyfrifiad a pherchnogaeth busnes â datblygiad pellach arfaethedig ar gyfer 2023 i 2024.

Egwyddor Data Cynhwysol 5 — Cysyniadau

Roedd 28 o fentrau yn y cynllun gweithredu sylfaenol yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd sy'n berthnasol i sicrhau priodoldeb ac eglurder cysyniadau. O'r rhain, roedd y rhan fwyaf (26) naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill ac ar amser ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2023.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth symud ymlaen ar welliant o ran priodoldeb ac eglurder y cysyniadau sy'n cael eu mesur. Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) Gynllun Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS) ym mis Chwefror 2022 sy'n nodi'r cynlluniau a'r amserlen ar gyfer adolygu a diweddarau safonau a chanllawiau GSS cyfredol ar gyfer casglu data, ac yn ystod 2022 a 2023 diweddarwyd y canllawiau ar gyfer rhai pynciau. (Gweler Egwyddor Data Cynhwysol 7 am ragor o wybodaeth).

Cyflwynodd y SYG hefyd ddull ymatebydd-ganolog i ddyluniad ei harolygon o'r dechrau i'r diwedd, gyda'r nod o wneud profiad yr arolwg yn un y gellir ei gyfnewid, a chyhoeddodd Geiriadur Data yn darparu diffiniadau, newidynnau a dosbarthiadau a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad Cymru a Lloegr 2021.

Mae amrywiaeth o gynhyrchwyr ystadegol ar draws y GSS wedi adolygu a diweddarau canllawiau ar gyfer casglu data gan gynnwys Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth yr Alban, Swyddfa Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Drafnidiaeth, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Swyddfa Gartref. Bydd y gwaith i barhau i gyflawni Cynllun Cysoni GSS yn allweddol yn 2023 i 2024.

Egwyddor Data Cynhwysol 6 — Dulliau

Roedd 19 o fentrau yn y cynllun gweithredu sylfaenol yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd sy'n berthnasol i ehangu'r ystod o ddulliau a ddefnyddir a datblygu dulliau newydd. O'r rhain, roedd y rhan fwyaf (15) naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill ac ar amser ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2023.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi rhoi amrywiaeth o raglenni gwaith ar waith, gan gynnwys cyfres arloesol o astudiaethau ymchwil ansoddol cyhoeddedig gyda chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ystadegol ar brofiadau bywyd pobl anabl yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, sipsiwn a theithwyr, a phlant ag anghenion addysgol arbennig ac anabledd. Mae'r SYG hefyd wedi parhau i ymchwilio i ddulliau gwell o gysylltu data gan gynnwys dulliau arloesol megis dysgu peirianyddol, gyda'r nod o ddeall a lleihau tuedd cysylltu, ac archwilio strategaethau ar gyfer priodoli yng nghyd-destun data gweinyddol cysylltiedig.

Mae Campws Gwyddor Data SYG wedi cydweithio'n rhyngwladol i gyflymu'r defnydd cyfrifol o ddeallusrwydd artifisial (AI), gwyddor data a data mawr i foderneiddio ystadegau swyddogol ar lefelau rhanbarthol, cenedlaethol a byd-

eang. Mae mentrau eraill ar draws Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS) yn cynnwys astudiaethau carfan presennol ac arfaethedig yr Adran Addysg a fydd yn gwella data arolygon hydredol ar blant a phobl ifanc er mwyn deall yn well y berthynas rhwng datblygiad, cyrhaeddiad, anfantais ac ystod o nodweddion personol ac aelwyd. Bydd y defnydd o ddulliau dadansoddi soffistigedig yn parhau i fod yn allweddol i alluogi dadansoddiad croestoriadol gwell.

Egwyddor Data Cynhwysol 7 — Cysoni

Roedd 12 menter yn y Cynllun Gweithredu yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd sy'n berthnasol i sicrhau bod safonau cyson yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. O'r rhain, roedd y rhan fwyaf (naw) naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill ac ar amser ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2023.

Mae gan yr Egwyddor Data Cynhwysol hon synergedd ag Egwyddor Data Cynhwysol 5. Mae cydweithio cryf wedi parhau ar draws Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS). Fel y disgrifir yn Egwyddor 5, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) y Cynllun Cysoni GSS ym mis Chwefror 2022 a oedd yn nodi'r cynlluniau a'r amserlen ar gyfer adolygu a diweddarau safonau a chanllawiau GSS cyfredol ar gyfer casglu data; ac fe wnaeth gryfhau llywodraethu'r gwaith hwn ar draws y GSS. Cyhoeddwyd diweddariad ym mis Rhagfyr 2022, gyda chynnydd da'n cael ei wneud.

Yn ystod 2022 i 2023, mae'r SYG wedi diweddarau'r safon gysoni ethnigrwydd, y safon gysoni Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC) y safon gysoni hunaniaeth genedlaethol a'r safon gysoni crefydd gyda'r nod o wella'r aliniad â Chyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr. Mae'r SYG hefyd wedi cyhoeddi'r canllawiau Coronafeirws (COVID-19) a diweddariad ar eu canllawiau cysoni rhyw sy'n darparu llinellau amser ar gyfer y gwaith.

Mae'r SYG yn cymryd rhan weithgar yn rhyngwladol ar gysoni, yn arbennig yng nghyd-destun cynllunio system ystadegau poblogaeth y dyfodol a dyfodol y cyfrifiad.

Mae'r SYG hefyd wedi cyhoeddi diweddariad Cynllun Gwaith Cydlyniant ar draws y GSS, cynllun ar gyfer gwella ystadegau is-genedlaethol ac mae'n cyflwyno gwasanaeth cynghori dadansodol lleol newydd (SYG Lleol), gyda'r uchelgais o gwmpasu'r pedair gwlad, fel y crybwyllwyd o dan Egwyddor 4.

Egwyddor Data Cynhwysol 8 — Hygyrchedd

O'r 23 o ymrwymïadau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu sylfaenol gyda'r nod o wella hygyrchedd data a thystiolaeth, roedd y rhan fwyaf (21) naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill ac ar y trywydd iawn erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Mae cynnydd da wedi'i wneud, gyda mentrau allweddol yn parhau rhwng 2023 a 2024. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi dechrau cyflwyno ffyrdd newydd o wneud data'n fwy hygyrch gan gynnwys cyhoeddi canlyniadau arolygon yn yr Wcrain ar gyfer arolwg Humanitarian Response Insights, a fideos i gyd-fynd â rhyddhau ymchwil ansoddol ar grwpiau o'r boblogaeth sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd.

Gwnaed nifer o fentrau i wella mynediad at ddata gweinyddol gan gynnwys drwy ryddhau setiau data newydd neu estynedig gan gynnwys y rhai gan y Swyddfa Gartref, y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau, yr Adran Addysg a'r Swyddfa Myfyrwyr.

Mae dangosfyrddau neu syllwyr data newydd wedi'u rhyddhau gan y SYG o ran Cyfrifiad 2021 'Creu Set Ddata Pwrpasol' a chan eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yr Adran Addysg, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau. Mae'r ffordd ymlaen ar gyfer datblygu porth defnyddwyr ar gyfer gwell mynediad at ddata cydraddoldeb wedi'i nodi yng nghyd-destun datblygiad y Gwasanaeth Data Integredig.



Fe fu cynnydd o ran symud data i fformat HTML gan nifer o adrannau gan gynnwys Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Mae Swyddogaeth Ddadansoddi'r Llywodraeth wedi cynhyrchu e-ddysgu newydd ar arfer gorau wrth gyhoeddi delweddau data. Mae'r SYG wedi ymgysylltu'n helaeth â defnyddwyr yng nghyd-destun y gwaith i baratoi ar gyfer argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol ar drawsnewid ystadegau am y boblogaeth, ac mae cynlluniau pellach ar gyfer hyn yn eu lle yn 2023 i 2024.

Cynnydd

Ymddiriedolaeth — Egwyddor Data Cynhwysol 1

Creu amgylchedd o ymddiriedaeth a dibynadwyedd sydd yn caniatáu ac yn annog pawb i gyfrif a chael eu cyfrif yn nata a thystiolaeth y DU.

Ynglŷn ag Egwyddor 1

Disgrifiodd y Tasglu ymddiriedaeth fel rhywbeth “hanfodol bwysig ar gyfer casglu a defnyddio data a’u cynnwys mewn ystadegau”. Cynlluniwyd eu hargymhellion i wella ymddiriedaeth yn y ddarpariaeth o ddata personol ar gyfer ystadegau ac ymchwil drwy wella dibynadwyedd canfyddedig y rhai sydd yn casglu ac yn defnyddio data. Roeddent yn canolbwyntio ar:

- cyfathrebu clir â phobl y gofynnir iddynt rannu eu data ynghylch pam mae eu hangen a sut y caiff eu defnyddio a’u diogelu
- mwy o waith allgymorth i gynnwys grwpiau a dangynrychiolir ar hyn o bryd; mwy o amrywiaeth ymhlith y rhai sydd yn casglu ac yn dadansoddi data i adlewyrchu amrywiaeth yng nghymdeithas y DU yn well
- nodi a mynd i’r afael â rhwystrau ymarferol i gyfranogiad o ran rhannu data ac i fynediad dilynol i’r data a’r canfyddiadau a’u defnyddio.

Cyflawniadau hyd yn hyn

Yn gyffredinol, roedd 24 o fentrau yn y cynllun gweithredu sylfaenol yn canolbwyntio’n benodol ar feysydd sy’n berthnasol i greu amgylchedd o ymddiriedaeth a dibynadwyedd. O’r rhain, roedd y rhan fwyaf (20) naill ai wedi’u cwblhau neu ar y gweill ac ar amser ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2023.

Gwella ymddiriedaeth a dibynadwyedd wrth ddarparu a defnyddio data

- Ymrwymodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) i ddatblygu ‘contract cymdeithasol’ gyda chyfranogwyr ymchwil ar y wybodaeth y maent yn dewis ei rhannu, gan ddarparu gwybodaeth glir ynghylch pam mae data’n cael eu casglu, cyfrinachedd a threfniadau diogelwch data, a sut y bydd eu gwybodaeth yn cael ei rhannu a’i defnyddio. Rhagwelwyd hon fel un ddogfen i’w phrofi a’i lansio yn 2022.
- Ar ôl ymchwilio ymhellach i arferion cyfredol a thrafodaethau ag arbenigwyr allanol yn 2022, mae’r rhaglen waith hon wedi datblygu i gydnabod y gallai fod angen mathau penodol o wybodaeth ar wahanol grwpiau i ysbrydoli ymddiriedaeth neu wybodaeth a ddarperir mewn gwahanol ffyrdd i fod yn gwbl gynhwysol. Mae gwaith cychwynnol yn archwilio anghenion gwybodaeth pobl ifanc 18 i 24 oed mewn perthynas â rhannu data personol wedi’i wneud, ac mae cyfres o grwpiau ffocws sy’n archwilio eu barn am ddata, gan gynnwys data gweinyddol, hefyd wedi’i gwblhau. Bydd y canfyddiadau’n cael eu rhannu â’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy’n goruchwyllo’r gwaith ym mis Mai 2023 a bydd penderfyniadau ynghylch y camau nesaf yn cael eu cynllunio. Mae’r gwaith hwn yn cael ei gynnal ar y cyd rhwng y SYG, Llywodraethau Cymru a’r Alban ac arbenigwyr allanol.

Ehangu ymgysylltiad a meithrin ymddiriedaeth gyda darpar grwpiau ymatebwyr

- Yn 2022, crëwyd Cynulliad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) i adeiladu ar ymgysylltiad cymunedol Cyfrifiad 2021, i gynyddu ac ehangu ymgysylltiad ag elusennau a chyrrff sy’n cynrychioli grwpiau cymdeithasol amrywiol, gan ddarparu fforwm ar gyfer deialog rheolaidd ac agored ar amrywiaeth o bynciau yn ymwneud â data a thystiolaeth.
- Sefydlodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol Ganolfan Ymgysylltu ar lefel waith hefyd yn 2022 i sicrhau bod eu hystadegau’n cyrraedd cymaint â phosibl, yn arbennig gyda defnyddwyr a chymunedau lleol, a’i gwneud yn haws i ddefnyddwyr ymgysylltu ag ystadegau ac ymchwil SYG gan cydlynu lledaenu ar draws meysydd thematig. Er enghraifft, mae’r SYG wedi rhoi cyflwyniadau i arweinwyr cymunedol am ffeithiau a ffigurau Cyfrifiad 21, a’r offer sydd ar gael i helpu unigolion i ddod o hyd i’r wybodaeth sy’n berthnasol iddynt.
- Roedd y SYG wedi bwriadu gwerthuso ymarferoldeb ymgysylltu â grwpiau cymunedol heb gynrychiolaeth ddigonol yng nghyd-destun arolygon cartrefi gwirfoddol yn 2022. Oherwydd cyfyngiadau adnoddau, bu oedi gyda’r gwaith hwn ond mae gwaith darganfod yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda gweithredu dulliau newydd yn seiliedig ar y canfyddiadau a ddisgwylir yn 2024 i 2025.

Cynyddu amrywiaeth ymhlith staff, hwyluso ymddiriedaeth ymhlith darpar gyfranogwyr

- Mae Swyddogaeth Dadansoddi'r Llywodraeth wedi diweddarau ei phecyn cymorth i'w ddefnyddio ar draws y llywodraeth, gan ganolbwyntio ar gynnwys mewn gwaith dadansoddi; cyflwyno rhaglen fentora cilyddol yn darparu cymorth gyrfa i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol; ac wedi lansio rhaglen o ddigwyddiadau 'Arweinwyr Dadansoddi' sy'n hyrwyddo amrywiaeth gweithlu'r rhai mewn proffesiynau dadansoddol yn y llywodraeth a thu hwnt.
- Er mwyn bwrw ymlaen â'r nod o sicrhau bod ei weithlu'n cynrychioli cymdeithas yn llawn, cyflwynodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) hyfforddiant arweinyddiaeth cynhwysol yn 2022 ar gyfer holl reolwyr cyfwelwyr arolwg.
- Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi ystadegau ar amrywiaeth ei gweithlu bob blwyddyn ers 2021, mewn ymateb i Argymhelliad 28 o Adolygiad Windrush Lessons Learned. Cyhoeddwyd ystadegau amrywiaeth gweithlu diweddaraf y Swyddfa Gartref ym mis Mawrth 2023. Bydd yr ystadegau hyn yn parhau i gael eu monitro a'u cyhoeddi'n flynyddol.
- Yn 2022, fe wnaeth yr Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ddatblygu a lansio nifer o ddangosfyrddau hunanwasanaeth mewnol i fonitro cyfraddau cynrychiolaeth mewn metrigau staff gan gynnwys amrywiaeth y gweithlu; ac i alluogi dadansoddiad canlyniadau Arolwg Pobl, dadansoddiad recriwtio, a gwobrau gwobrwyo a chydabod o safbwynt cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Mae allgymorth llwyddiannus wedi arwain at Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru yn recriwtio ystod fwy amrywiol o staff sydd â phrofiad o fyw a phrofiad perthnasol arall, ac mae'r hyn a ddysgir o'r gweithgareddau recriwtio hynny yn cael ei rannu.

Deall a mynd i'r afael â'r rhwystrau ymarferol i gyfranogiad, gan gynnwys mewn perthynas â hygyrchedd

- Ymrwymodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) i adolygu ei phrosesau gweithredol o ran casglu data ar draws ei phortffolio presennol o arolygon cymdeithasol i nodi rhwystrau i gymryd rhan, gan gynnwys ymhlith y rhai a dangynrychiolir mewn ystadegau. Roedd cam cyntaf y gwaith hwn yn ystod 2022 yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth ac ymgysylltu â thimau ymchwil a gweithredol mewnol i ddeall rhwystrau cynwysoldeb wrth gasglu data arolwg SYG. Mae'r Arolwg o'r Llafurlu ar ei newydd wedd wedi datblygu ei ddeunyddiau ymatebol i fynd i'r afael â rhwystrau ymarferol, megis hygyrchedd. O fis Tachwedd 2022, roedd yr SYG yn cynnwys yr opsiwn ar gyfer cymorth iaith yn ogystal â'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cynhyrchion print bras. Mae datblygiadau pellach ar y gweill ar gyfer 2023.
- Mae'r SYG yn trawsnewid ei phortffolio o arolygon cartrefi ac yn symud i ddull casglu cyntaf ar-lein, gyda dulliau eraill yn cefnogi casglu data lle bo'n briodol. Yn 2022, bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn profi ac yn gwerthuso'r ymagwedd dull cymysg hwn ymhellach er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar gynllun casglu data arolygon yn y dyfodol.

- Roedd y SYG yn rhagweld y byddai'r ymatebion yn cael eu gwerthuso yn ôl nodweddion ymatebwyr ar yr Arolwg Defnydd Amser yn 2022 er mwyn deall rhwystrau ymarferol i gyfranogiad. Cynhaliodd y SYG Arolygon Defnydd Amser ym mis Mawrth a mis Tachwedd 2022, gyda chyfyngiadau adnoddau'n atal gwerthusiad o'r ymateb yn 2022. Mae hyn bellach wedi'i gynllunio ar gyfer 2023 gyda gwerthusiad o ymatebion yn llywio datblygiadau arolygon yn y dyfodol.
- Roedd Llywodraeth yr Alban yn disgwyl comisiynu ymchwil annibynnol yn 2022 ymhlith pobl â nodweddion gwarchodedig i archwilio rhwystrau i gymryd rhan yn eu harolygon a datblygu canllawiau arfer gorau. Gan fod Llywodraeth yr Alban yn cydweithio yn y gwaith sy'n cael ei wneud mewn cysylltiad ag argymhelliad y Contract Cymdeithasol, maent bellach yn bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn drwy gydweithio â'r SYG ac eraill ar datblygu egwyddorion wedi'u llywio gan gyfranogwyr ar gyfer casglu tystiolaeth cydraddoldeb.
- Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi archwilio effeithiau cymhellion ar y nifer sy'n cymryd rhan yn yr Arolwg Cyfranogiad, er mwyn nodi ffyrdd o wella cynhwysiant. Fe wnaethant ddau arbrawf i ddeall yr effaith ar gyfraddau ymateb. Cyhoeddwyd y canlyniadau yn Adroddiad Peilot yr Arolwg Cyfranogiad 2021 i 2022. Mae mentrau eraill gan DCMS i wella cynhwysiant arolygon yn cynnwys:
 - sicrhau bod fersiynau papur o'r holiadur ar gael i unrhyw un sy'n ffafrio hwn na fersiwn ddigidol yn ogystal ag anfon holiadur papur mewn llythyrau atgoffa
 - targedu'n arbennig grwpiau sy'n aml yn cael eu tangynrychioli mewn data arolygon
 - monitro ceisiadau am arolygon mewn ieithoedd heblaw Saesneg i alluogi adolygiadau cyfnodol i weld a oes angen holiaduron mewn ieithoedd ychwanegol.
- Ymrwymodd y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (NIHR) i gasglu a dadansoddi data amrywiaeth yn flynyddol i daflu goleuni ar unrhyw rwystrau yn ei systemau neu ragfarnau yn ei brosesau sy'n arwain at y tan-gynrychiolaeth o rai grwpiau yn ei ymchwil. Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd NIHR ei ail Adroddiad Data Amrywiaeth ar amrywiaeth ymgeiswyr ymchwil, deiliaid gwobrau ac aelodau pwyllgor, yn ogystal ag ymchwil ar ddata amrywiaeth cyfranogwyr yn seiliedig ar hapdreialon rheoledig. Yn ystod 2023, bydd eu casgliad data amrywiaeth yn cael ei ehangu i gynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig a amlinellwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
- Ym mis Tachwedd 2022, cafodd yr offeryn holiadur a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer cynnal yr Arolwg o'r Gweithlu wedi'i Drawsnewid (TLFS) ac Arolygon Cymdeithasol eraill ei brofi o ran hygyrchedd gyda chanlyniad nad yw'r offeryn yn cydymffurfio'n llawn â safonau hygyrchedd. Mae'r argymhellion yn cael sylw ac mae'r SYG yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w defnyddwyr trwy eu datganiad TLFS, ag ymrwymiad i gyhoeddi map gweithredu.

- Mae Consortiwm Trais, Iechyd a Chymdeithas (VISION) a ariennir gan Bartneriaeth Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI PRP) a leolir yn City, Prifysgol Llundain wedi parhau i weithio ochr yn ochr â sefydliadau trydydd sector yn y sector Trais yn Erbyn Menywod a Merched, sydd wedi cynnal ymgynghoriadau ag aelodau ar y systemau casglu data gorau ar gyfer gwasanaethau gan ac ar gyfer. Mae sefydliadau trydydd sector wedi ymgysylltu â City ar fesurau canlyniadau craidd i'w casglu gan eu defnyddwyr gwasanaeth sy'n gallu adlewyrchu orau natur y gwasanaethau a dderbynir a'r buddion a geir.

Mynd i'r afael â rhwystrau ymarferol i gyrchu a defnyddio data

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn archwilio ffyrdd o ymgorffori newidynnau cynllun arolygon mewn setiau data Arolwg Cyfoeth ac Asedau sydd ar gael i'r cyhoedd er mwyn galluogi defnyddwyr i gyfrifo dangosyddion ansawdd o'r data cyhoeddus, a chaiff y newidynnau eu hadolygu tua diwedd 2023. Bydd penderfyniadau ynghylch cynnwys newidynnau cynllun arolwg hefyd yn ystyried pwysigrwydd rheoli datgelu.
- Mae consortiwm VISION yn City, Prifysgol Llundain wedi gweithio ag Imkaan a Phrifysgol Warwick i archwilio rhagfarnau o ran grwpiau ymylol a ffyrdd posibl o oresgyn y rhain. Cyflwynodd ymchwilwyr waith ar rwystrau i ddatgelu trais sy'n effeithio ar boblogaeth leiafrifol i'r aelodau consortiwm VISION ym mis Ionawr 2023, a disgwylir i bapur briffio gael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2023. Mae'r Consortiwm VISION hefyd wedi asesu'n feirniadol offer a llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes i lywio'r gwaith o ddatblygu offeryn Risg o Tuedd i'w ddefnyddio wrth ddefnyddio data ynghylch ethnigrwydd a statws mewnfudo.



Gweithio Systemig - Egwyddor Data Cynhwysol 2

Cymryd ymagwedd system gyfan, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill i wella cynwysoldeb data a thystiolaeth y DU.

Ynglŷn ag Egwyddor 2

Cydnabu'r Tasglu Data Cynhwysol fod gwneud data'r DU yn fwy cynhwysol yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr data gydweithio'n fwy i rannu gwybodaeth, dulliau ac arferion addawol, yn y DU ac yn ehangach.

Cyflwyniadau hyd yn hyn

At ei gilydd, roedd 33 o fentrau yn y cynllun gweithredu sylfaenol yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd sy'n berthnasol i weithio mewn partneriaeth gan sicrhau dull system gyfan. O'r rhain, roedd y rhan fwyaf (31) naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill ac ar amser ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2023.

Adolygu argymhellion y Tasglu, monitro ac adrodd ar gynnydd tuag at eu gweithredu.

- Lansiodd Pwyllgor Cynghori ar Ddata Cynhwysol newydd yr Ystadegydd Gwladol, dan gadeiryddiaeth y Fonesig Julia Cleverdon DCVO CBE, yn 2022 i roi cyngor tryloyw ar flaenoriaethau a chynnydd dros amser. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael adroddiadau rheolaidd ar sut mae prosiectau a gyhoeddwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Tasglu Data Cynhwysol yn dod yn eu blaenau. Mae aelodaeth y pwyllgor yn cwmpasu pedair gwlad y DU ac yn cynnwys uwch academyddion, arbenigwyr data cydraddoldeb ac arweinwyr cymdeithas sifil.
- Yn 2022, sefydlodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) dîm newydd yn y Ganolfan Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Mae'r tîm yn coladu diweddariadau ar gynnydd ar draws y system ystadegol tuag at yr ymrwymïadau a wnaed yn y Cynllun Gweithredu. Maent hefyd yn cydlynu gweithgareddau llywodraethu gysylltiedig â hyn, gan gynnwys Pwyllgor Cynghori Data Cynhwysol yr Ystadegydd Gwladol.
- Ym mis Mai 2023 lansiodd is-bwyllgor Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS) newydd ar Ddata Cynhwysol ac roedd yr aelodaeth yn cynnwys uwch ystadegwyr o'r gweinyddiaethau datganoledig, y SYG ac adrannau llywodraeth y DU. Bydd hyn yn ychwanegu ffocws pellach at fonitro a chyflawni.

- Ymrwymodd y SYG i hwyluso adolygiad blynyddol a chyhoeddodd ddiweddariad o Gynllun Gweithredu'r Tasglu Data Cynhwysol, gyda'r adolygiad hwn yn ateb y diben hwnnw.
- Yn 2022 datblygodd y SYG gynllun gwerthuso i fesur effaith gweithgareddau yng Nghynllun Gweithredu'r Tasglu Data Cynhwysol. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen trawslywodraethol sy'n cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig wedi bod yn gweithio i gynllunio metrigau i'w defnyddio fel llinell sylfaen ar gyfer gwerthuso.

Gwreiddio gwaith y Tasglu mewn ffrydiau gwaith rheolaidd

- Mae Canolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet wedi datblygu camau gweithredu data-benodol o adroddiad Prydain Gynhwysol y llywodraeth. Cwblhawyd cyhoeddi canfyddiadau'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r wefan Ffeithiau a Ffigurau Ethnigrwydd ac ar ddatblygu set o safonau ar gyfer data ethnigrwydd mewn cydweithrediad â rhwydweithiau eraill ac Adrannau'r Llywodraeth, yn arbennig Tîm Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS) yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).
- Fe wnaeth yr Adran Addysg gynig strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr ystadegau newydd yn 2022, sydd ar hyn o bryd yn cael ei chwblhau i'w chadarnhau yn 2023.
- Fe wnaeth y Ganolfan Troseddau a Chyfiawnder yn y SYG ddiweddarau a chyhoeddi eu strategaeth ymgysylltu a lansiodd y Fforwm Ystadegau Troseddu a Chyfiawnder ym mis Chwefror 2022.

Rhannu gwybodaeth trwy ymgysylltu ag academyddion, grwpiau defnyddwyr ac eraill y tu allan i'r llywodraeth

- Mae'r Swyddfa Myfyrwyr wedi comisiynu proses well o gasglu data ar gyfer myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch, ac mae'r gwaith o gasglu data'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.
- Fel rhan o'i brosiect Tadau Cyfoes yn y DU a ariennir gan Sefydliad Nuffield, mae'r Fatherhood Institute wedi gweithio gyda sefydliadau ymchwil hydredol i gynyddu'r data a gesglir gan dadau ac wedi cynghori ar gwestiynau am dadau mewn astudiaethau hydredol ar raddfa fawr.
- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn gweithio gyda'r byd academaidd i roi'r dulliau meintiol diweddaraf ar waith i ddeall cynwysoldeb a chynrychioldeb mewn data gweinyddol. Mae ymchwil hefyd yn cynnwys cynllunio a datblygu, ar y cyd â'r byd academaidd, i adeiladu dulliau sy'n helpu i gyflawni samplau mwy cynhwysol ar gyfer casglu data arolygon.

- Fel rhan o'i rhaglen Data yn Gyntaf, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn datblygu gwaith mewn partneriaeth ag academyddion, a ariennir gan Ymchwil Data Gweinyddol (YDG) UK, i gysylltu ffynonellau data gwahanol i ddarparu darlun o'r dechrau i'r diwedd o'r system gyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys rhaglen gymrodoriaeth lle mae derbynwyr yn treulio cyfnodau byr o amser yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda'r data hyn ac yn ymgysylltu ar draws y cymunedau polisi, gweithrediadau, strategaeth a dadansoddol. Mae prosiectau cychwynnol wedi edrych ar ragfarn hiliol yn y system gyfiawnder troseddol a phrofiadau plant sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder i gael persbectif mwy cyfannol.
- Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi sefydlu'r Ganolfan Tystiolaeth a Phartneriaeth yn ei Hadran Data a Dadansoddi. Mae'r Hyb yn cynnal rhwydwaith academaidd ac yn gweithredu rhaglen gymrodoriaeth ar wahân, fwy cyffredinol, sy'n ymgorffori academyddion o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ymgymryd â phrosiectau â themâu trawsbynciol sy'n mynd i'r afael â meysydd penodol o ddiddordeb ymchwil. Mae prosiect diweddar wedi cynnwys edrych ar groestoriadedd wrth recriwtio staff.

Ystyried cydariannu casglu data i ddatblygu atebion cost-effeithiol

- Mae cyfleoedd i gynhyrchwyr a chyllidwyr data'r DU greu partneriaethau cydariannu newydd ac ymestyn y rhai presennol i wella cynwysoldeb data a thystiolaeth y DU yn parhau i gael eu harchwilio. Er enghraifft, dechreuodd trafodaethau yn 2022 ynghylch y ffordd orau o lenwi bylchau data ar brofiad bywyd pobl anabl yn y DU ac mae trefniadau cydariannu posibl yn cael eu hystyried.

Cymryd rhan mewn mentrau rhyngwladol i wella cynwysoldeb ystadegau

- Yn 2022, dechreuodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ymchwilio i ddichonoldeb Grŵp Dinasoedd newydd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Data Cynhwysol. Os cytunir arno, caiff y syniad ei gynnig yn ffurfiol ym mis Mawrth 2024, ac os caiff ei dderbyn, gallai'r grŵp gael ei sefydlu yn 2025.
- Yn 2022, cafodd cynllun gweithredu Siarter Data Cynhwysol y SYG ar gyfer y Nodau Datblygu Cynaliadwy ei adolygu a'i ddisodli gan Gynllun Gweithredu'r Tasglu Data Cynhwysol i sicrhau mwy o gydlyniant yn y gwaith tuag at gynwysoldeb. Mae'r SYG yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â rhwydwaith y Siarter Data Cynhwysol yn rhyngwladol i rannu arfer gorau a dysgu yn seiliedig ar fentrau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Tasglu Data Cynhwysol.
- Chwaraeodd y SYG ran weithredol yn Nhasglu ar Ystadegau Plant ac Ieuentid Comisiwn Economaidd y Cenhedloedd Unedig (UNECE), gyda ffocws ar blant mewn gofal y tu allan i'r cartref, plant anabl, a thrais yn erbyn plant. Darparodd y Tasglu argymhellion a chanllawiau i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2022 ar sut i alluogi'r grwpiau hyn i gael eu cynrychioli'n well mewn data a thystiolaeth.

- Gweithiodd yr Adran Addysg ar draws Adrannau Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig, Dibynwledydd y Goron a thiriogaethau tramor i ymateb i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gan ddarparu tystiolaeth ar brofiad plant mewn meysydd gan gynnwys addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, a'r system gyfiawnder. Lle bo'n bosibl, cafodd y dystiolaeth a ddarparwyd ei dadansoddi dros amser ac yn ôl nodweddion. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cenhedloedd Unedig ym mis Mehefin 2022 a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cenhedloedd Unedig maes o law.
- Mae'r SYG yn parhau i arwain Grŵp Dinasoedd y Cenhedloedd Unedig ar Heneiddio ac Ystadegau Wedi'u Dadgyfuno ar Oedran, gan weithio gyda Sefydliadau Ystadegol Cenedlaethol eraill, Sefydliad Iechyd y Byd, Is-adran Ystadegau'r Cenhedloedd Unedig, a sefydliadau eraill i ddarparu cysoni ac arfer gorau mewn data a thystiolaeth ar gyfer grwpiau poblogaeth pobl hŷn.
- Mae'r SYG yn parhau i ymgysylltu ar draws amrywiaeth o fentrau rhyngwladol i wella cynwysoldeb data gan gynnwys:
 - Gweithgor Rhyng-ysgrifenyddiaeth y Cenhedloedd Unedig ar Arolygon Cartrefi
 - Cyfarfodydd Sefydliad Iechyd y Byd ar ddata anabledd
 - Gwaith Gwasanaeth Aelwydydd Di-dâl ac is-grwpiau Llafur, Cyfalaf Dynol, ac Addysg y Gweithgor Rhyng-ysgrifenyddiaeth ar gyfer Cyfrifon Cenedlaethol
 - Is-grŵp Ystadegau Moderneiddio Defnydd Amser o Grŵp Arbenigol y Cenhedloedd Unedig ar Ffyrdd Effeithiol o Gasglu Ystadegau Defnydd Amser.

Galluogi dysgu ehangach trwy rannu, gwerthuso a chyhoeddi arferion arloesol effeithiol

- Ymrwymodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) i wella effaith ei hymchwil a dyfnhau cydweithredu â'r byd academiaidd a sefydliadau ymchwil ehangach fel rhan o'i strategaeth ymchwil. Yn 2022, amlygodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei hymagwedd at arloesi a chydweithredu ym maes ymchwil, gan wahodd y rheini sydd â diddordeb mewn cynnig partneriaethau ymchwil newydd i gysylltu.
- Parhaodd y SYG i rannu'r hyn a ddysgwyd mewn perthynas â datblygu dulliau i wella cynhwysiant cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys dulliau i wella dealltwriaeth o effeithiau coronafeirws (COVID-19) ar bobl â mathau gwahanol o namau, ac ymchwil yn ymwneud ag Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr ar foeseg casglu data ar-lein yn ymwneud â phynciau sensitif. Bu'r SYG hefyd yn rhannu dulliau ar gyfer cynhyrchu ystadegau poblogaeth amlamryweb gan ddefnyddio ffynonellau gweinyddol ac arolygon.
- Mae Canolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet wedi cyhoeddi nifer o ddulliau ac adroddiadau ansawdd a phostiadau blog ar ddata ethnigrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

- Fe wnaeth Canolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Addysg ddatblygu a chyhoeddi strategaeth i wella ansawdd ac argaeledd data a thystiolaeth ethnigrwydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'u llwybrau allan o ofal ym mis Ebrill 2023. Roedd hyn yn rhan o'r Adroddiad Diweddariad Prydain Gynhwysol.
- Cynhaliodd Llywodraeth yr Alban weithdai yn 2022 ar hil, anabledd a data croestoriadedd i arddangos arfer da a rhannu dysgu.
- Mae'r SYG wedi rhannu a chyhoeddi ymchwil, fframweithiau a chanllawiau ar arfer gorau i asesu ansawdd data gweinyddol at ddibenion ystadegol. Fe wnaethant gyhoeddi ymchwil cynwysoldeb ansoddol arloesol sy'n archwilio cynwysoldeb a chynrychioldeb mewn data gweinyddol. Fe wnaethant hefyd gyhoeddi'r Fframwaith Ansoddol Data Gweinyddol (ADQF) a chatalog gwallau data gweinyddol. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn rhoi arweiniad a chynghor i Adrannau'r Llywodraeth a Sefydliadau Ystadegol Cenedlaethol (NSIs) rhyngwladol ar sut i asesu ansawdd data gweinyddol ac ansicrwydd. Gyda'r cyhoeddiadau hyn, fe fu ymgysylltu ar draws y Llywodraeth, ar draws NSIs rhyngwladol, yng nghyfarfod Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig ar gasglu data ym mis Hydref 2022, a chyda'r byd academiaidd. Bydd y cyhoeddiad nesaf yn becyn cymorth i ddadansoddwyr trawslywodraethol ei ddefnyddio; mae'n cynnwys cwestiynau ansawdd data gweinyddol hanfodol i'w hystyried wrth ddadansoddi a phrosesu data gweinyddol at ddibenion ansawdd ystadegol ac mae'n cynnwys cwestiynau i ofyn i gyflenwyr data ddeall mwy am ansawdd data gweinyddol.



Cwmpas - Egwyddor Data Cynhwysol 3

Sicrhau bod pob grŵp yn cael ei gofnodi'n gadarn ar draws meysydd allweddol o fywyd yn nata'r DU ac adolygu arferion yn rheolaidd.

Ynglŷn ag Egwyddor 3

Roedd y Tasglu Data Cynhwysol (TDC) yn cydnabod bod data da ar gael ar amrywiaeth o bynciau ar gyfer rhai grwpiau poblogaeth. Fodd bynnag, ar gyfer rhai grwpiau a phynciau, mae bylchau yn y data yn atal "i ba raddau y mae ystadegau'n adlewyrchu profiadau pawb mewn cymdeithas". Yn ogystal, nid yw data bob amser yn bodloni'r ystod lawn o anghenion defnyddwyr. Argymhellodd y ffyrdd canlynol o fynd i'r afael â'r materion hyn:

- nodi lle nad yw data'n gynrychiadol o bawb mewn cymdeithas a chymryd camau i fynd i'r afael ag ef
- sicrhau'r defnydd gorau o ddata gweinyddol drwy wella ei gynwysoldeb, naill ai drwy gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y casgliad data neu drwy gydweithio i sicrhau y gellir casglu gwybodaeth unwaith ond ei defnyddio eto
- dod o hyd i atebion i fynd i'r afael â bylchau na ellir eu llenwi gan arolygon presennol neu welliannau i ddata gweinyddol, gan gynnwys nodi a mynd i'r afael â phroblemau o ran cwmpas poblogaethau nad ydynt yn byw mewn cartrefi preifat
- sicrhau bod data a thystiolaeth ar gael sy'n adlewyrchu'r ystod lawn o anghenion amrywiol defnyddwyr

Cyflwyniadau hyd yn hyn

Ar y cyfan, roedd 33 o'r 41 o fentrau yn y cynllun gweithredu sylfaenol a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob grŵp yn cael eu cofnodi'n gadarn, naill ai wedi'u cwblhau, neu ar waith ac ar amser, ddiwedd mis Mawrth 2023.

Nodi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a datblygu strategaethau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth

- Rhan allweddol o waith trawsnewid ystadegau poblogaeth a mudo'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fu gwella ansawdd ystadegau poblogaeth, gwella'r diffiniadau ac ystyried seiliau poblogaeth amgen o'r ystadegau a gynhyrchir ganddynt i ddiwallu anghenion defnyddwyr yn well, a sicrhau eu bod yn fwy cynhwysol. Mae cynwysoldeb gwell mewn ystadegau poblogaeth yn hollbwysig, gan eu bod yn sail i'r rhan fwyaf o ystadegau trawslywodraethol fel enwadur (er

enghraifft, wrth gynhyrchu amcangyfrifon o Gynnyrch Domestig Gros [GDP] a chyfraddau diweithdra) a hefyd wrth bwysoli amcangyfrifon arolygon. Mae eu hamcangyfrifon poblogaeth diweddaraf ar sail Gweinyddol yn dangos y cynnydd y maent yn ei wneud.

- Yn ogystal â thrawsnewid eu hystadegau poblogaeth, mae gwaith trawsnewid y SYG hefyd yn cynnwys cynyddu amllder, amseroldeb a chynwysoldeb ystadegau am nodweddion ein cymdeithas. Mae'r SYG wedi bod yn asesu pa mor gynrychiadol yw gwahanol ffynonellau data gweinyddol gan ddefnyddio Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr i lywio gwaith i sicrhau cynrychioldeb ystadegau wrth symud ymlaen. Fel rhan o'r ymchwil sy'n sail i ddyluniad cynhyrchu ystadegau poblogaeth yn y dyfodol, cyhoeddwyd ystadegau ethnigrwydd gweinyddol ar gyfer 2020 ym mis Chwefror 2023. Roedd y rhain yn cynnwys cymariaethau cenedlaethol ar lefel gyfanredol ag amcangyfrifon Cyfrifiad 2021, yn ogystal ag ystadegau ar gyfer Cymru am y tro cyntaf.
- Cyhoeddwyd canfyddiadau o ymchwil gychwynnol y SYG ar ansawdd cofnodi ethnigrwydd mewn ffynonellau data gweinyddol iechyd allweddol yn Lloegr ym mis Ionawr 2023.
- Yn ogystal, mae'r SYG yn bwriadu datblygu set o asedau hydredol (a fydd yn caniatáu mewnwelediadau i ganlyniadau yn seiliedig ar brofiadau bywyd pobl). Maent wedi canolbwyntio prawf o gysyniad ar ddatblygu'r astudiaeth Canlyniad Integreiddio Ffoaduriaid, mewn cydweithrediad â'r Swyddfa Gartref, sydd â'r nod o ddarparu mewnwelediad i sut mae ffoaduriaid wedi integreiddio i gymunedau lleol ar ôl symud i Loegr. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd pwysig tuag at ddarparu mewnwelediad i grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol mewn cymdeithas.
- Cyflwynodd y SYG Gynllun Arolygon Addasol (ASD) ar gyfer yr Arolwg o'r Gweithlu wedi'i Drawsnewid (TLFS) ym mis Tachwedd 2022 fel strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thangynrychiolaeth. Mae hwn yn defnyddio data TLFS hanesyddol i bennu nodweddion yr ardaloedd ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) sydd leiaf tebygol o ymateb heb ymyrraeth, ac i nodi lle mae ymweliadau cnocio-i-annog yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol o ran lleihau gwallau dim ymateb.
- Yn ogystal, er mwyn cynyddu ansawdd yr Arolwg o'r Gweithlu wedi'i Drawsnewid, mae'r SYG wedi bod yn monitro'n agos yr amrywiad mewn ymateb ar draws ardaloedd daearyddol a dosbarthiadau eraill, megis y Mynegai Amddifadedd Lluosog a Dosbarthiadau Ardaloedd Cynnyrch. Mae dangosfwrdd Gwybodaeth Reoli yn galluogi monitro cynrychioldeb y data yn ddyddiol fel y gellir cymryd camau i fynd i'r afael ag ef.
- Fel rhan o'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r wefan ffeithiau a ffigurau Ethnigrwydd ym mis Gorffennaf 2022, ac yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd yn adroddiad Prydain Gynhwysol, mae Canolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet wedi bod yn adolygu bylchau mewn data ethnigrwydd; mae hyn yn cynnwys bylchau yn y ddealltwriaeth o ganlyniadau ymfudwyr yn ogystal â bylchau

dadansoddol ehangach. Fe wnaeth yr ymateb i'r ymgynghoriad ffeithiau a ffigyrau Ethnigrwydd ddisgrifio'r naw cam gweithredu ar gyfer yr Hyb Cydraddoldeb, gan gynnwys darparu data mwy gronynnog a dadansoddiad ethnigrwydd defnyddiol.

- Fel rhan o'i hymrwymiad i ddeall cynwysoldeb ymhlith defnyddwyr teithio a thrafnidiaeth, yn 2022, adolygodd yr Adran Drafndiaeth yr angen am ddata mwy cadarn ac amserol ar gyfer dadansoddi rhai grwpiau demograffig penodol ar ei Harolwg Teithio Cenedlaethol. Bydd yn cyflwyno maint sampl cynyddol o 2023 i ddiwallu'r angen hwn.
- Ar ôl cyhoeddi *A yw Prydain yn Decach?* yn 2018, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi dechrau adolygu setiau data allweddol a phynciau a ddefnyddir yn ei Fframwaith Mesur i nodi lle mae sylw annigonol i nodweddion gwarchoddedig, neu feintiau sampl gwael ac anghyson.
- Mae'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) wedi diwygio fframweithiau arolygu sy'n ymwneud â threfniadau ardal leol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledau (SEND) a darpariaeth y rhai sy'n gadael gofal gan wasanaethau plant awdurdodau lleol. Mae casgliad data Awdurdod Lleol wedi dechrau i gasglu profiadau defnyddwyr gwasanaeth (plant a phobl ifanc, ymarferwyr a rhieni) ac i sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n llawn.

Gwella cynwysoldeb casglu data gweinyddol

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi bod yn cynnal ymchwil i ddeall yn well sut mae data ar nodweddion personol yn cael eu casglu gan gyflenwyr data i amlygu meysydd i'w gwella a bydd yn cyhoeddi papur yn disgrifio'r hyn y byddai system boblogaeth y dyfodol yn ei gynnig, o ran nodweddion poblogaeth ochr yn ochr â'r ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn cael ei lansio yn haf 2023. Bydd y canfyddiadau'n cyfrannu at yr ymgynghoriad ar argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol ar drawsnewid ystadegau am y boblogaeth.
- Mae'r Swyddfa Myfyrwyr wedi gweithio gyda'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch i nodi'r casgliad o wybodaeth am nodweddion personol gan fyfyrwr addysg uwch ac mae data bellach yn cael eu casglu gan ddarparwyr addysg uwch unigol.
- Defnyddiodd Llywodraeth yr Alban ganfyddiadau ei Harchwiliad Data Cydraddoldeb yn 2022 i ddatblygu cynlluniau i wella data cydraddoldeb. Roedd y rhain yn sail i Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb yr Alban 2023 i 2025. Mae'r adborth o ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynlluniau hyn wedi'i gyhoeddi i'r holl randdeiliaid ei ddarllen.
- Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref Ofyniad Data Blynyddol (ADR) gwirfoddol ar gyfer heddluoedd ar ddata demograffig trawsbynciol (ADR 153). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gasgliadau data plismona presennol sy'n casglu data

demograffig (gan gynnwys rhyw ac ethnigrwydd) wneud hynny mewn ffordd gyson drwy ei gysoni â Chyfrifiad 2021. Mae hefyd yn cynnwys casglu data arall yn wirfoddol ar nodweddion gwarchoddedig dioddefwyr er mwyn helpu i fonitro dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

- Mae Cyllid a Thollau EF wedi bod yn adolygu opsiynau ar gyfer casglu gwybodaeth ddemograffig ychwanegol. Mae gwerthusiad pellach o'r opsiynau hyn yn parhau, a disgwylir i'r argymhellion cychwynnol gael eu cytuno erbyn canol 2023.
- Fe wnaeth aelodau Consortiwm Trais, Iechyd a Chymdeithas (VISION) (City, Prifysgol Llundain) a ariennir gan Bartneriaeth Ymchwil Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI PRP) gynnal gweithdy gydag Imkaan ym mis Hydref 2022. Asesodd yr ymchwilwyr y codau ethnigrwydd yn feirniadol ar draws y data a ddarparwyd gan yr Arolwg Troseddu, cofnodion meddygol, arolwg iechyd meddwl, data heddlu a data gwasanaethau arbenigol. Mae hyn yn llywio dyluniad fframwaith mesur ar gyfer nodweddion gwarchoddedig.
- Mae cynlluniau Hyb Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Rhaglen Gwella Data Anabledd wedi'u gohirio tra'n aros am benderfyniadau ynghylch cyllid.

Cydweithio i sicrhau bod data gweinyddol y DU yn adlewyrchu nodweddion perthnasol, gan gynnwys drwy gysylltu setiau data perthnasol

- Ym mis Tachwedd 2022, llofnododd Ystadegydd Gwladol, Prif Ystadegwyr a Chofrestryddion Cyffredinol y DU ddatganiad o gytundeb ar gyfer cydweithredu ar ystadegau poblogaeth ac ystadegau cymdeithasol yn y dyfodol. Yn y cytundeb hwn ymrwymodd y partion i gydgefnogaeth wrth gaffael data gweinyddol i gynhyrchu'r ystadegau hyn, rhannu dulliau newydd, a chydlynu er mwyn cysoni allbynnau i'r eithaf.
- Ers mis Ionawr 2022, mae'r Swyddfa Gartref wedi gweithio gyda sawl Adran arall o'r Llywodraeth i hwyluso mynediad diogel a phriodol at ddata gweinyddol perthnasol er mwyn deall poblogaeth y DU yn well, gan gynnwys galluogi gwaith cysylltu perthnasol ac angenrheidiol:
 - fe wnaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) gyhoeddi ystadegau mudo net wedi'u diweddarau ym mis Tachwedd 2022, gan ddefnyddio data gweinyddol y Swyddfa Gartref fel rhan graidd eu hamcangyfrifon mudo o'r tu allan i'r UE. Mae gwaith yn parhau i fireinio'r ystadegau hyn
 - mae gwaith hefyd wedi bod yn mynd rhagddo gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) i ddatblygu ystadegau chwarterol ar lefel leol, gan gefnogi dull seiliedig ar le; bydd hyn yn galluogi cymunedau lleol ac eraill i ddeall ac ymateb yn well i anghenion lleol

- mae'r Swyddfa Gartref a'r SYG wedi datblygu astudiaeth garfan Canlyniadau Integreiddio Ffoaduriaid (RIO). Mae hyn yn cysylltu data gweinyddol a data eraill i ddeall canlyniadau integreiddio dros amser ar gyfer carfannau o ffoaduriaid a adsefydlwyd a'r rhai y rhoddwyd lloches iddynt rhwng 2015 a 2020. Cyhoeddwyd adroddiad ar y prosiect peilot, a gysylltodd ddata Gwiriadau Gadael y Swyddfa Gartref (Ilifoedd i'r DU ac oddi yno) â data iechyd Gwasanaeth Demograffig Personol (PDS) GIG (symudiadau mudo mewnol, mynediad at wasanaethau meddygon teulu), ym mis Mehefin 2022)
- Fe fu'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) yn gweithio mewn partneriaeth â'r SYG i adeiladu ased data cysylltiedig i ddal profiad plentyndod pobl ifanc sy'n rhyngweithio â'r system cyfiawnder troseddol yn well. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cysylltu data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Addysg ac yn ceisio deall cysylltiadau rhwng profiadau plentyndod a dedfrydau o garchar yn ddiweddarach.
- Mae Ofsted wedi ymrwmo i gytundeb gyda'r SYG fel mabwysiadwr cynnar y Gwasanaeth Data Integredig (GID) i fanteisio ar gyfleoedd i gysylltu asedau addysg a gofal cymdeithasol plant presennol ymhellach â data trawslywodraethol ar nodweddion unigol a theuluol. Bydd hyn yn gwneud defnydd o Gyfrifiad 2021 ac asedau data poblogaeth mewn modd cyfanredol nad yw'n datgelu.

Mynd i'r afael â phroblemau gyda'r seilwaith data na ellir eu darparu gan arolygon presennol a gwelliannau i ddata gweinyddol

- Gan adeiladu ar y Strategaeth Arolygon newydd y cytunwyd arni yn 2021, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi dechrau mireinio ei dull o gynnal arolygon cymdeithasol i sicrhau bod argymhellion y Tasglu Data Cynhwysol yn cael eu hystyried a bod cyfleoedd i wella cynhwysiant poblogaethau a dangynrychiolir yn cael eu ceisio'n weithredol.
- Fel rhan o drawsnewid ystadegau am y boblogaeth, mae'r SYG wedi parhau i archwilio rôl arolygon cartrefi i gasglu data ar nodweddion gwarchoddedig a phynciau pwysig eraill lle nad oes unrhyw botensial neu dim ond potensial cyfyngedig mewn data gweinyddol a chaiff hyn ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad defnyddwyr a gynllunir ar gyfer haf 2023.
- Mae'r Swyddfa Gartref a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi bod yn gweithio gyda thîm arolwg Humanitarian Response Insights yr Wcráin yn y SYG ar y ffordd orau o ymestyn eu hastudiaeth garfan Canlyniadau Integreiddio Ffoaduriaid (RIO) i gynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chasglu trwy gysylltu data gweinyddol, er enghraifft rhwystrau i waith a rhentu preifat, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus, iechyd a lles.

- Mae'r gwaith cwmpasu gan Gyllid a Thollau EF (CThEF) i asesu dichonoldeb a fforddiadwyedd casglu data nodweddion gwarchoddedig trwy arolygon ar raddfa fawr wedi'i oedi. Ar hyn o bryd, mae CThEF yn ymchwilio i atebion casglu data posibl eraill i gael cipolwg ar bryderon ac ystyriaethau ynghylch cydraddoldeb cwsmeriaid. Fodd bynnag, nid yw'r posibilrwydd o arolygon ar raddfa fawr o grwpiau cwsmeriaid wedi'i ddiystyru..
- Mae'r arolwg arfaethedig o bobl anabl ar draws y DU gan Ganolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet wedi'i ohirio tra'n aros am benderfyniadau ar gyllid. Mae ffyrdd eraill o ariannu arolwg newydd yn cael eu hystyried, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer ariannu ar y cyd.

Gwerthuso a mynd i'r afael â phroblemau o ran cwmpas poblogaethau nad ydynt yn byw mewn cartrefi preifat

- Yn ystod 2022 i 2023, dechreuodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) adolygiad o ffynonellau data presennol ar sefydliadau cymunedol ar draws gwledydd y DU. Mae adolygiad lefel uchel cychwynnol o argaeledd ffynonellau data ar gyfer gwahanol sefydliadau cymunedol a grwpiau poblogaeth dros dro, megis pobl sy'n profi digartrefedd, ar y gweill.
- Mae ymchwil SYG i werth, a sut orau i gasglu data arolwg gan boblogaethau nad ydynt yn preswyllo mewn cartrefi preifat, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn Sefydliadau Cymunedol, wedi'i ohirio tra'n aros am ganlyniad yr adolygiad o ffynonellau data presennol ar y poblogaethau hyn (gweler uchod). Bydd yr ymchwil hwn yn cael ei wneud yn 2023 yn amodol ar gyllid, a bydd yn bwydo i mewn i'r broses o drawsnewid ystadegau am y boblogaeth a'r argymhelliad sy'n cael ei wneud gan yr Ystadegydd Gwladol ar ddyfodol Cyfrifiad Cymru a Lloegr.
- Mae'r SYG wedi bod yn gwneud cynnydd da ar waith i ymchwilio i gwmpas y poblogaethau sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol ledled Cymru a Lloegr yn y data gweinyddol presennol. Mae canlyniadau cynnar o baru Cyfrifiad 2021 â data gweinyddol yn cael eu dadansoddi i asesu pa mor dda yw cynrychiolaeth pobl mewn sefydliadau cymunedol yn y data presennol.
- Yn dilyn gwaith cwmpasu mewn perthynas ag amcangyfrif poblogaethau nad ydynt yn preswyllo mewn cartrefi preifat, cyhoeddodd y syg adolygiad tystiolaeth o ddata presennol ar ddiartrefedd 'cudd' ledled y DU ym mis Mawrth 2023, gan amlygu'r heriau, cymhlethdodau a'r prif fylchau yn y data mewn perthynas â'r boblogaeth hon. Mae ymchwil hefyd ar y gweill i ddatblygu dull ar gyfer canfod maint y menywod sy'n profi digartrefedd 'cudd' ledled y DU.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn bwrw ymlaen â gwaith i archwilio'r broses o gyflwyno system casglu data digartrefedd ar lefel unigol er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o sefyllfaoedd y rhai sy'n profi digartrefedd statudol. Mae prosiect peilot ar gyfer rhannu samplau o ddata presennol yn cael ei gynnal gydag awdurdodau lleol, â'r nod o gytundeb i rannu data cychwynnol erbyn canol 2023.

- Mae'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) wedi dechrau rheoleiddio'r sector Llety â Chymorth sy'n gwasanaethu plant a phobl ifanc, gan gynnwys casglu data i ddeall maint y sector hwn ac i gysylltu data gweinyddol a gesglir yn ystod proses y rôl reoleiddio hon gyda data lefel plentyn a gesglir gan yr Adran Addysg.

Sicrhau bod anghenion amrywiol ystod o ddefnyddwyr yn cael eu hystyried mewn gweithgareddau casglu data ac adrodd

- Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar weithredu Strategaeth Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn 2022 i 2023, ac un o'r rhain yw Cynhwysol trwy Ddyluniad, ac yn benodol ar sut mae'r SYG yn cymryd trosolwg strategol o bortffolio'r arolwg:
 - Mae trefniadau llywodraethu newydd wedi'u rhoi ar waith i weithio ochr yn ochr â fforymau presennol
 - Mae proses rheoli galw arolwg newydd wedi'i lansio ac mae'n helpu i ddod ag eglurder i sut y gall SYG flaenoriaethu ceisiadau defnyddwyr ochr yn ochr â galwadau presennol yn llwyddiannus
 - Mae 'llyfr chwarae' arfer gorau wedi'i lansio i helpu i sicrhau cysondeb ar draws portffolio'r arolwg o ran dulliau dylunio, casglu a phrosesu data arolygon
 - Mae egwyddorion ymchwil a datblygu arolygon newydd gan gynnwys sut i wella cynwysoldeb wedi'u datblygu a fydd yn sicrhau bod ymatebwyr yn ganolog ac yn rhan annatod o ddyluniad yr arolwg
 - Dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu dwy strategaeth parth-benodol - ar gyfer arolygon Busnes a Chymdeithasol - yn 2022 i 2023, gyda dyddiadau lansio disgwylidig yn chwarter cyntaf 2023 i 2024.
- Mae'r SYG wedi ymgysylltu'n helaeth â defnyddwyr ag aelodau o'r cyhoedd, yn ogystal â sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector fel rhan o'r gwaith i ddatblygu argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol ar drawsnewid ystadegau am y boblogaeth.
- Mae cyfyngiadau adnoddau wedi gohirio datblygiad y Strategaeth Ymgysylltu â Defnyddwyr gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig tan 2023 i 2024.
- Mae'r Adran dros Gymunedau wrthi'n datblygu strategaethau cynhwysiant cymdeithasol newydd ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a bydd yn parhau tan fandad nesaf y Cynulliad.
- Yn ystod 2022, cynhaliodd Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad cyhoeddus ar ddata cynhwysol i ddeall anghenion defnyddwyr am dystiolaeth cydraddoldeb ac unrhyw rwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Defnyddiwyd yr ymatebion i lywio ei Gynllun Gweithredu sy'n ganolog i Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb 2023 i 2025 yr Alban.

Dadgyfuno — Egwyddor Data Cynhwysol 4

Gwella seilwaith data'r DU i alluogi dadgyfuno cadarn a dibynadwy a dadansoddiad croestoriadol ar draws yr ystod lawn o grwpiau a phoblogaethau perthnasol, ac ar wahanol lefelau o ddaearyddiaeth.

Ynglŷn ag Egwyddor 4

Fe wnaeth y Tasglu Data Cynhwysol gydnabod nad yw'r data a'r dystiolaeth bresennol mewn rhai achosion yn ddigon manwl i'n galluogi i ddeall profiadau pawb yng nghymdeithas y DU. I rai poblogaethau, mae gan yr angen i gyfuno grwpiau ar gyfer dadansoddiad y potensial i "gamliwio materion ac anghenion cymunedau llai a mwy ymylol". Yn ogystal, mae diffyg gronynnedd yn atal ein gallu i ddeall sut mae croestoriad gwahanol nodweddion yn cyfuno i effeithio ar brofiadau pobl.

Maent wedi argymhell:

- gwella manylder y data presennol, gan gynnwys gorsamplu grwpiau penodol mewn gweithgareddau casglu data
- osgoi defnyddio meta-gategoriâu a mabwysiadu ymagwedd groestoriadol at ddadansoddi a dehongli, gan gynnwys mewn offer ar-lein presennol
- sicrhau bod cynwysoldeb wrth wraidd cynllun system ystadegau cymdeithasol y dyfodol

Cyflawniadau hyd yn hyn

Yn gyffredinol, roedd 25 o fentrau yn y cynllun gweithredu sylfaenol yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd sy'n berthnasol i alluogi dadgyfuno a dadansoddi croestoriadol. Roedd pob un naill ai wedi'i gwblhau neu ar y gweill ac ar amser ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2023.

Gwella gronynnedd data i alluogi dadgyfuno ystyrion

- Fel rhan o'r ymchwil sy'n sail i argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol ar drawsnewid ystadegau am y boblogaeth, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi archwilio gwneud mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol i gynhyrchu ystadegau amlach ac amserol ar gyfer nodweddion poblogaeth, gan gynnwys ar lefel ddaearyddol gronynnog ac ar gyfer nodweddion gwarchoddedig. Mae

ymchwil blaenorol wedi dangos gallu'r SYG i gynhyrchu cyfrif o nodweddion gan gynnwys grŵp ethnig, incwm, tai, statws y farchnad lafur a chyn-filwyr, gan ddefnyddio data gweinyddol yn gyntaf. Mae'r pynciau hyn wedi'u blaenoriaethu ar gyfer ymchwil oherwydd cyfuniad o angen uchel gan ddefnyddwyr a'u hargaeledd mewn ffynonellau data gweinyddol. Mae ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023 yn cynnwys amcangyfrifon o grŵp ethnig, incwm a thai, ac amcangyfrifon amlamryweb i helpu i ddeall canlyniadau gwahanol grwpiau poblogaeth, gan gwmpasu tai ac incwm yn ôl ethnigrwydd.

- Fe wnaeth y SYG arwain a datblygu strategaeth ddata is-genedlaethol Gwasanaeth Ystadegol (GSS) traws-Lywodraethol, sy'n cyfeirio'n benodol at yr egwyddorion data cynhwysol i ddarparu ystadegau mwy amserol, gronynnog a chyson ar lefelau daearyddiaeth is nag a oedd yn bosibl yn flaenorol. Ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd cynllun gwaith is-genedlaethol SYG i nodi ymrwymiad cyhoeddus i sut y byddent yn cyflawni'r strategaeth data is-genedlaethol.
- Gyda chymorth yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC), mae'r SYG wedi sefydlu rhaglen waith i ddatblygu ystadegau a dadansoddiadau mwy gronynnog sy'n manteisio ar ffynonellau data sydd ar gael yn ddiweddar ac offer delweddu a lledaenu data sy'n gwneud y mewnwediadau hyn yn fwy hygyrch ac yn haws eu defnyddio. Mae llawer o'r gwaith hwn yn gofyn am ddatblygu dulliau newydd o ymdrin â heriau megis dosrannu gweithgarwch busnes ar draws safleoedd sydd wedi'u lleoli mewn mannau gwahanol a chynnal ystadegau nad ydynt yn datgelu gwybodaeth am fusnesau unigol.
- Yn ystod 2022 i 2023 mae'r SYG, unwaith eto gyda chymorth DLUHC, wedi creu gwasanaeth cynghori dadansoddol lleol newydd gyda'r uchelgais o gwmpasu pedair gwlad y DU, a elwir yn SYG Lleol. Y nod yw sicrhau bod arweinwyr lleol a sefydliadau is-genedlaethol yn gallu cyrchu a defnyddio data, ystadegau a dadansoddiadau i gefnogi eu penderfyniadau. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei gyd-gynllunio â dadansoddwyr lleol ledled Lloegr a'r Prif Ystadegydd ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig.
- Mae'r Adran Addysg wedi dechrau casglu data Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHC) yn orfodol ar lefel y plentyn/person ifanc yn lle data cyfanredol ar lefel Awdurdod Lleol. Cyhoeddir y data hyn am y tro cyntaf ddiwedd gwanwyn 2023.
- Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi comisiynu adroddiad ymchwil i archwilio addasrwydd defnyddio dull sy'n seiliedig ar fodel i gael metrigau lefel Awdurdod Lleol ar gyfer yr Arolwg o Fywyd Cymunedol. Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2023.
- Fel rhan o'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r wefan Ffeithiau a Ffigurau Ethnigrwydd, mae Canolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet wedi cwblhau asesiad o fanylder y setiau data, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio dosbarthiadau deuaidd gwyn/ddim yn wyn. Mae dadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae Cam 7 o'r ymateb i'r ymgynghoriad yn ymrwymo'r Hyb Cydraddoldeb i weithio gydag adrannau i wella gronynedd data ethnigrwydd.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi creu tair uned newydd, yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd i wella argaeledd, ansawdd, gronynedd a hygyrchedd tystiolaeth am unigolion â nodweddion gwarchoddedig a nodweddion cysylltiedig. Ers hydref 2022:
 - mae'r unedau wedi bod yn cwmpasu blaenoriaethau tystiolaeth gychwynnol, yn ogystal â dechrau Archwiliad Data Cydraddoldeb Cymru
 - mae'r Uned Data Cydraddoldeb hefyd wedi datblygu cynnig ar gyfer asesiad gwerthuso i sicrhau bod gwybodaeth fonitro ddigonol yn ei lle i ddeall effaith y cynllun gweithredu LGBTQ+ ar gymunedau LGBTQ+
 - mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau Anabledd yn ymchwilio i rwystrau i gyflogaeth ac yn dadansoddi bylchau cyflog
 - mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau Hiliol wedi bod yn datblygu asesiad a fframwaith cychwynnol ar gyfer mesur effaith Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru, yn ogystal â datblygu offeryn casglu data i ymchwilio i nodweddion gwarchoddedig Byrddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dyfarnu'r contract i gyflawni Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2024 i 2025, gan alluogi cyfuno unrhyw gyfuniad o chwarteri i gynhyrchu setiau data aml-flwyddyn mawr a chynhyrchu setiau data cyfun dwy flynedd fel arfer. Bydd hyn yn galluogi dadansoddiad manylach o is-grwpiau. Mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd hefyd wedi bod yn edrych ar gyfleoedd i roi hwb i samplau a chysylltu data, er mwyn gwella manylder y data. Dechreuodd y prosiect ar ddiwedd 2022 ac mae yn y cam cwmpasu a datblygu ar hyn o bryd.
- Yn dilyn hwb rhannol i sampl yr Arolwg Adnoddau Teuluol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022, cyflwynwyd hwb llawn ym mis Ebrill 2022, gyda'r bwriad o gyflawni maint sampl o 45,000 o aelwydydd ar gyfer y flwyddyn 2022 i 2023. O ganlyniad i heriau wrth sicrhau lefel ddigonol o ymateb aelwydydd, disgwylir i sampl terfynol a gyflawnir fod oddeutu 25,000 o aelwydydd, ond mae hyn yn dal i fod yn welliant ym maint y sampl o gymharu â blwyddyn arferol.
- Mae'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted) wedi ymrwymo i adolygu'n barhaus ei chynhyrchiad ystadegol er mwyn gwella gronynedd ystadegau ar gyfer defnyddwyr. Er enghraifft, yn 2022, fe wnaethant ddiwygio'r broses o gynhyrchu ystadegau swyddogol maethu i ddatgysylltu gofalwyr maeth teulu a ffrindiau oddi wrth ddarpariaeth maethu prif ffrwd er mwyn adrodd am dueddiadau mwy addysgiadol yn y sector.

Gorsamplu wedi'i dargeddu i fynd i'r afael â bylchau penodol mewn gwybodaeth

- Yn dilyn cyflwyno ei Chynllun Arolygon Addasol (ASD) ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid (TLFS) ym mis Tachwedd 2022 (gweler Egwyddor Data Cynhwysol 3), bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn gwerthuso ei effaith i lywio unrhyw newidiadau yn y dyfodol. mewn perthynas â gorsamplu neu dargeddu casglu data ymhellach.
- Mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) wedi cynnal dadansoddiad cychwynnol o'r data nodweddion gwarchoddedig sydd ar gael ar gyfer yr arolwg Unigolion, Busnesau Bach ac Asiantau (ISBA), gan gyfuno sawl blwyddyn o ddata. Canfuwyd bod meintiau sampl yn rhy fach yn y rhan fwyaf o grwpiau lleiafrifoedd ethnig i ddarparu casgliadau cadarn, felly mae CThEF yn bwriadu cynnal astudiaeth ddichonoldeb lawn i asesu'r potensial i gynyddu cynrychiolaeth grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn yr arolwg.
- Mae Arolwg Panel Rhieni, Disgyblion a Dysgwyr yr Adran Addysg (DfE) wedi cyhoeddi canlyniadau arolwg sy'n cynnwys gorsamplu wedi'i dargeddu o grwpiau â chyfraddau ymateb hanesyddol is, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) sy'n gymwys, y rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig a Statws Anabledd, a'r rhai â statws Plant mewn Angen, i lenwi'r bylchau presennol o ran dealltwriaeth o'r grwpiau hyn.
- Mae'r Adran Addysg (DfE) wedi gweithredu gorsamplu targedig o grwpiau difreintiedig yn ei hastudiaethau Plant y 2020au a Phump i Ddeuddeg, a Thyfu i Fyny yn yr 2020au, er mwyn deall yn well y berthynas rhwng datblygiad, cyrhaeddiad, anfantais ac ystod o nodweddion personol a chartref. Bydd canlyniadau cam un o Plant y 2020au yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2024.

Hyrwyddo ymagwedd groestoriadol at archwilio a chyflwyno data cydraddoldeb

- Mae Canolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet wedi partneru â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) i gyflawni ei Rhaglen Data Cydraddoldeb. Defnyddiodd cam cychwynnol y gwaith hwn ddata a oedd yn bodoli eisoes i archwilio sut mae canlyniadau pobl yn amrywio yn ôl gwahanol ddimensiynau o gydraddoldeb (gan gynnwys daearyddiaeth a chefnidir economaidd-gymdeithasol). Cyhoeddwyd y dadansoddiad ym mis Ionawr 2023.
- Fel rhan o ail gam y Rhaglen Data Cydraddoldeb i ddatblygu set ddata gysylltiedig i alluogi dadansoddiad croestoriadol manylach (yr Ased Data Cydraddoldeb), mae'r SYG wedi datblygu prototeip sy'n cysylltu data cofrestr Pobl â Rheolaeth Arwyddocaol (PSC) Tŷ'r Cwmnïau i ddata Cyfrifiad 2011. Mae ansawdd y prototeip hwn yn cael ei asesu ar hyn o bryd gan staff Swyddfa'r Cabinet yn y Gwasanaeth Ymchwil Diogel.

- Yn 2022, cyhoeddodd y SYG gyfres o ddadansoddiadau gan ddefnyddio setiau data cysylltiedig i alluogi dadansoddiad mwy gronynnog a chroestoriadol. Roedd y rhain yn cynnwys addysg, symudedd cymdeithasol a chanlyniadau i fyfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn Lloegr:
 - Addysg, symudedd cymdeithasol a chanlyniadau ar gyfer myfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim yn Lloegr
 - Cefndir addysg a gofal cymdeithasol pobl ifanc sy'n rhyngweithio â'r system cyfiawnder troseddol
 - Pam mae derbynwyr prydau ysgol am ddim yn ennill llai na'u cyfoedion
 - Pwy yw'r plant sy'n mynd i ofal yn Lloegr?
 - Cefndir addysgol plant sy'n derbyn gofal sy'n rhyngweithio â'r system cyfiawnder troseddol
- Mae'r Swyddfa Myfyrwyr wedi datblygu a chyhoeddi set o fesurau croestoriadol i wella dealltwriaeth o'r canlyniadau y mae grwpiau gwahanol yn debygol o'u profi ar draws cylch bywyd myfyrwyr, gan gynnwys mynediad i addysg uwch, a pharhad mewn addysg uwch.
- Mae'r SYG wedi dechrau cynnal dadansoddiad croestoriadol gan ddefnyddio Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr. Hyd yn hyn, mae dadansoddiad cyffredinol wedi'i gyhoeddi ar ieuchyd cyffredinol ac anabledd yn ôl oedran a rhyw, gyda dadansoddiad ar gyfer canlyniadau a nodweddion eraill wedi'u cynllunio yn ystod 2023 i 2024.
- Gan gydnabod pwysigrwydd deall sut y gall canlyniadau amrywio yn ôl nodweddion megis grŵp ethnig, mae ymchwil y SYG sy'n sail i argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol ar drawsnewid ystadegau am y boblogaeth yn cynnwys dangos dichonoldeb defnyddio data gweinyddol i gynhyrchu amcangyfrifon sy'n dangos dwy nodwedd neu fwy gyda'i gilydd ar y lefel is-genedlaethol gan gynnwys incwm yn ôl ethnigrwydd a thai yn ôl ethnigrwydd.
- Fel rhan o gyhoeddi'r fframwaith dangosyddion cyfalaf dynol, roedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bwriadu cynnal dadansoddiad croestoriadol yn 2022 ar yr hyn sy'n ysgogi caffael gwybodaeth a sgiliau gydol oes. Mae hyn wedi'i ohirio gyda'r fframwaith dangosyddion ac mae'r broses o gasglu data'n dal i gael ei datblygu. Bellach disgwylir casglu a dadansoddi data rhwng 2023 a 2024.

Gwella dealltwriaeth trwy ddefnyddio ymagwedd croestoriadol at offer ar-lein presennol

- Yn ogystal ag amrywiaeth o setiau data ac erthyglau dadansoddi o Gyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi cyhoeddi eu 'Creu Set Ddata Bwrpasol.' Mae'r offeryn adeiladu tablau hyblyg hwn yn galluogi defnyddwyr i archwilio data Cyfrifiad 2021 y tu hwnt i ddadansoddiad SYG, ac yn galluogi defnyddwyr i gynhyrchu ystadegau amlamryweb drostynt eu hunain. Mae'r SYG hefyd wedi cyhoeddi offeryn proffil 'Adeiladu ardal

bwrpasol' sy'n galluogi defnyddwyr i lunio eu hardaloedd eu hunain ar fap, neu i ddefnyddio neu ddiwygio daearyddiaethau a osodwyd ymlaen llaw, ac archwilio data cyfrifiad ar gyfer yr ardal honno.

Sicrhau bod argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol ar ddyfodol y Cyfrifiad ac Ystadegau'r Boblogaeth yn bodloni'r ystod lawn o anghenion cynwysoldeb

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi bod yn parhau i fonitro gweithrediad argymhellion perthnasol y Tasglu Data Cynhwysol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol ar drawsnewid ystadegau am y boblogaeth.
- Trwy ymgysylltu'n helaeth â defnyddwyr a'r Ymgynghoriad a fydd yn cael ei lansio yn Haf 2023 ac a fydd yn llywio argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol ar drawsnewid ystadegau am y boblogaeth, mae'r SYG yn ceisio cael dealltwriaeth well fyth o anghenion defnyddwyr, a bydd cynwysoldeb yn ffocws allweddol iddynt, a bydd y rhain yn llywio eu cynlluniau ymchwil yn y dyfodol yn ogystal ag argymhelliad yr Ystadegydd Gwladol.



Cysyniadau — Egwyddor Data Cynhwysol 5

Sicrhau priodoldeb ac eglurder ynghylch y cysyniadau sy'n cael eu mesur ar draws yr holl ddata a gesglir.

Ynglŷn ag Egwyddor 5

Amlygodd y Tasglu Data Cynhwysol bwysigrwydd sicrhau bod ymchwilwyr yn glir ynghylch yr hyn y maent yn ceisio ei fesur mewn perthynas â nodweddion ac amgylchiadau personol er mwyn helpu i wella cynwysoldeb, cywirdeb a chysondeb data a thystiolaeth. Canolbwyntiodd y Tasglu ar sawl maes lle roedd yn teimlo y dylid gwneud gwelliannau, gan gynnwys:

- sicrhau bod safonau data, diffiniadau a dulliau mesur yn cyd-fynd â newidiadau cymdeithasol a deddfwriaethol a'u bod yn cael eu hystyried yn briodol ac yn gywir gan ddarpar gyfranogwyr ymchwil a grwpiau perthnasol
- sicrhau bod dealltwriaeth gysyniadol glir yn sail i gasglu data, tra hefyd yn gwella hygyrchedd a phriodoldeb canfyddedig y mesurau a'r dulliau a ddefnyddir ymhlith darpar gyfranogwyr
- sicrhau eglurder yn yr iaith a ddefnyddir wrth gasglu data, dadansoddi ac adrodd ar ganfyddiadau
- sicrhau tryloywder ynghylch sut mae data wedi'u casglu wrth rannu ac adrodd ar ddata fel y gall eraill asesu eu rhinweddau a'u cynwysoldeb drostynt eu hunain.

Cyflawniadau hyd yn hyn

Yn gyffredinol, roedd 28 o fentrau yn y cynllun gweithredu sylfaenol yn canolbwyntio'n benodol ar feysydd sy'n berthnasol i sicrhau priodoldeb ac eglurder cysyniadau. O'r rhain, roedd y rhan fwyaf (26) naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill ac yn unol â'r amserlen ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2023.

Sicrhau bod mesurau ar gyfer poblogaethau gwahanol yn adlewyrchu safonau a deddfwriaeth gyfredol yn gywir

- Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o ddatblygu tystiolaeth yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd o 2022. Mae eu hymchwiliadau cychwynnol i sut i gydgyhyrchu ymchwil a gweithio ochr yn ochr â phobl anabl wedi cynnwys adolygiad o lenyddiaeth a chynngor gan aelodau o'r Tasglu Hawliau Anabledd. Yn seiliedig ar hyn, mae dull cydgynhyrchu wedi'i gynllunio gyda gwaith ychwanegol wedi'i gynllunio i ddatblygu theori newid yn ystod 2023.

- Gweithiodd Swyddfa'r Cabinet gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn 2022 i ddeall yr hyn sy'n ysgogi cyfraddau ymateb isel i gwestiynau am gefndir economaidd-gymdeithasol gweithlu'r Gwasanaeth Sifil. Nid yw'r cyfraddau ymateb presennol yn ddigon i'w cyhoeddi fel rhan o Ystadegau'r Gwasanaeth Sifil. Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn adrannau i wella cyfraddau ymateb fel y gellir cyhoeddi data ar gefndir economaidd-gymdeithasol yn y dyfodol. Yn ogystal â'n helpu i gyflawni'r ymrwymadau a nodir yn Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth Sifil, gellir defnyddio'r data hyn i ddatblygu dull a ysgogir gan ddata ac a arweinir gan dystiolaeth i ysgogi mwy o gynhwysiant.

Sicrhau bod dealltwriaeth gysyniadol glir yn sail i gasgliadau data hygyrch a phriodol

- Ar ôl ymgynghori â Chanolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet a'r gweinyddiaethau datganoledig, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) Gynllun Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS) ym mis Chwefror 2022, gan nodi cynlluniau ar gyfer adolygu a diweddarau safonau a chanllawiau cysoni cyfredol GSS. Cyhoeddwyd diweddariad dilynol ym mis Rhagfyr 2022 gyda rhagor o wybodaeth am y cynnydd a gyflawnwyd mewn perthynas â safonau a chanllawiau gan gynnwys hunaniaeth genedlaethol, yr iaith Gymraeg, ethnigrwydd, dosbarthiad economaidd-gymdeithasol, gwasanaeth blaenorol yn y lluoedd arfog, a chymwysterau. Gweler hefyd Data Cynhwysol Egwyddor 7
- Mae'r SYG wedi cyflwyno dull ymatebydd-ganolog i ddyluniad ei harolygon o'r dechrau i'r diwedd, gyda'r nod o wneud profiad yr arolwg yn un perthnasol, yn ddealladwy ac yn briodol i ymatebwyr. Dros y flwyddyn ddiwethaf, defnyddiwyd y dull hwn yn benodol wrth ddatblygu'r Arolwg o'r Gweithlu Llafur wedi'i Drawsnewid gyda'r nod o'i gyflwyno i bob arolwg cymdeithasol arall.
- Yn 2022, fe fu Canolfan Cydraddoldeb Swyddfa'r Cabinet yn gweithio gyda'r SYG, rhanddeiliaid eraill ac arbenigwyr ar brofiadau bywyd pobl anabl ar gynllun cychwynnol arolwg o bobl anabl ledled y DU. Mae angen profion a gwaith pilot cyn unrhyw weithredu pellach. Mae gweithredu'n dibynnu ar gyllid pellach, ac mae opsiynau ar gyfer hyn yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd ar draws y Llywodraeth a chyda sefydliadau partner allanol posibl, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer ariannu ar y cyd.
- Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ganllawiau ym mis Mawrth 2022 ar gasglu data a geiriad cwestiynau i'w defnyddio ar gyfer casglu data cydraddoldeb. Ers hynny mae'r canllawiau newydd hyn wedi'u cyflwyno ar draws y sector cyhoeddus yn yr Alban.
- Bydd dyluniad arolwg panel chwe wythnos yr Adran Addysg o athrawon ac arweinwyr ysgolion a cholegau, y Panel Ysgolion a Cholegau (SCP), yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau y mae sail resymegol glir ar gyfer yr angen adrannol a chraffu trylwyr ar eu cyfer. Lle bo modd, bydd yr arolwg yn defnyddio cwestiynau safonol presennol gyda chwestiynau newydd yn seiliedig ar arfer

gorau dylunio a phrofion gwybyddol i sicrhau cynnyrch terfynol sy'n hawdd ei ddeall ac yn berthnasol i'r sector. Mae tonnau blaenorol y panel wedi'u cyhoeddi. Bydd tonnau ymchwil yn cael eu cynnal trwy gydol blwyddyn academaidd 2022 i 2023 ac mae trafodaethau'n parhau ynghylch blynyddoedd y dyfodol i'r panel.

- Ailosododd yr Adran Drafnidiaeth y contract ar gyfer yr Arolwg Teithio Cenedlaethol (NTS) yn 2022 a defnyddiodd argymhellion y Tasglu Data Cynhwysol fel ysbrydoliaeth ar gyfer cwmpasu rhaglen ymchwil dulliau NTS.
- Mae'r Adran ar gyfer Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi gweithio'n agos gyda grwpiau Partneriaeth Gwybodaeth Ganolog a Lleol (CLIP) yr awdurdod lleol, gan adolygu gofynion data newydd. Ym mis Rhagfyr 2022, cymeradwywyd newidiadau i ddadansoddiadau cenedligrwydd ar gyfer casglu data ystadegau digartrefedd (H-CLIC) ac o fis Ebrill 2023 bydd yn cynnwys dadansoddiadau ar gyfer y rhai sy'n dychwelyd neu'n cyrraedd o Syria, Afghanistan, Hong Kong neu Wcráin.

Sicrhau eglurder yn yr iaith a ddefnyddir wrth gasglu ac adrodd ar ddata

- Mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Rhyngweinyddol, fel y crybwyllwyd eisoes, cyhoeddodd y SYG Gynllun Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS) i adolygu a gwneud gwelliannau o ran eglurder iaith. Mae'r SYG wedi gwneud llawer iawn o waith ymgysylltu ar draws y Llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i hyrwyddo a sefydlu'r broses o fabwysiadu safonau wedi'u cysoni. Gwneir hyn drwy amrywiaeth o fentrau gan gynnwys rhwydwaith o hyrwyddwyr cysoni adrannol, cymorth pwrpasol ar gyfer casgliadau data proffil uchel y llywodraeth a sesiynau hyfforddi ar draws adrannau. Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun Cysoni GSS ar gael o dan Egwyddor Data Cynhwysol 7.
- Fe wnaeth y Swyddfa Weithredol yng Ngogledd Iwerddon ddrafftio canllawiau ar fonitro poblogaethau ethnig er mwyn darparu fframwaith safonol i helpu cyrff cyhoeddus i gasglu gwybodaeth mewn modd cyson ond hyblyg, gan wella'r modd y darperir gwasanaethau a chydaddoldeb i wahanol boblogaethau ethnig a mudol sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon. Cafodd y canllawiau drafft eu cynhyrchu a'u hystyried yn ystod 2022, gyda'r gweithredu'n amodol ar gytundeb gan yr holl gyrff perthnasol.
- Ar gyfer Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021, gofynnodd y SYG am farn ar gynllun cynnwys a rhyddhau allbynnau Cyfrifiad 2021. Roedd yr ymgynghoriad yn ymdrin ag iaith a labelu ar gyfer pynciau megis ethnigrwydd, hunaniaeth genedlaethol, iaith, a chrefydd. Er enghraifft, buont yn ymgynghori ar eu cynnig i gyflwyno'r dosbarthiad grŵp ethnig yn nhrefn yr wyddor yn ogystal â'r iaith a ddefnyddir yn y tablau dosbarthu. Mae adborth o'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi yn Allbynnau Cyfrifiad 2021: cynigion cam dylunio a rhyddhau cynnwys. Yn ogystal, ymgysylltodd y SYG drwy weithgorau, megis Grŵp Ethnig y SYG a'r Panel Sicrwydd Crefydd i geisio adborth ar yr iaith a'r labelu


a ddefnyddir ar gyfer allbynnau'r cyfrifiad. Roedd hyn yn cynnwys cael ystod amrywiol o adborth gan adrannau eraill y llywodraeth, academyddion a chynrychiolwyr grwpiau cymunedol.

- Yn 2022, Fe wnaeth y Swyddfa Gartref adolygu a diweddarau ei Safonau Data'r Gweithlu ar gyfer nodweddion gwarchodedig i gefnogi asesu a yw heddluoedd, fel rhan o Raglen Ymgodiad yr Heddlu, yn dod yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Lle bo'n bosibl, mae safonau data wedi'u halinio â Chyfrifiad 2021 neu'n tynnu ar safonau cysonedig presennol a nodir gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Mae'r safonau cofnodi bellach yn cael eu defnyddio gan partneriaid plismona, yn ogystal â chasgliadau data gweithlu'r heddlu. Mae rhagor o fanylion ar gael ynng nghanllaw gweithlu'r heddlu.
- Fel rhan o waith gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru, adnabuwyd nad oedd y derminoleg Gymraeg a ddefnyddir ar hyn o bryd wrth drafod hil ac ethnigrwydd bob amser yn addas i'r diben: naill ai nid oedd terminoleg yn bodoli neu roedd wedi dyddio. Roedd hyn yn rhwystr i drafod y pwnc yn Gymraeg. Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Mae miliwn o siaradwyr Gymraeg yn canolbwyntio'n glir ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Sefydlwyd grŵp o arbenigwyr iaith a chynrychiolwyr o wahanol gymunedau ethnig lleiafrifol a datblygwyd set o dermau Gymraeg a gyflwynwyd wedyn i'r cyhoedd ar gyfer ymgynghoriad. Mae'r termau i drafod hil ac ethnigrwydd yn y Gymraeg wedi'u hymgorffori yng nghronfeydd termau cydnabyddedig BydTermCymru a Phorth Termau Cenedlaethol Cymru.

Sicrhau tryloywder ynghylch sut mae data wedi'u casglu wrth rannu ac adrodd ar ddata

